
Atodiad 14 – Ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad Newidiadau Ffocws ar yr ACI/ARC (Chwefror 2024)

Paratowyd y ddogfen hon er mwyn casglu ynghyd yr ymatebion a wnaed i Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC) yr 2il Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori yn ei gylch ar 19/02/2024.

Crynodeb: Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Cyflwynwyd cyfanswm o 20 o sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad ar yr ACI, gydag ymatebion gan chwe ymgynghorydd, gan gynnwys Dyfodol I'r Iaith Sir Gaerfyrddin, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Glo, a Mudiad Amddiffyn Porth-y-rhyd, ochr yn ochr ag aelodau'r cyhoedd (Tabl 1). O'r sylwadau perthnasol a wnaed, roedd y themâu cyffredin yn cynnwys y Gymraeg, gyda sylwadau cysylltiedig ar y newid mewn data sylfaenol o ddata cyfrifiad 2021. Yn ogystal â'r Adendwm i'r ACI ei hun, cafwyd sylw pellach ar Adroddiad yr ACI (fel y'i diwygiwyd gan Atodiad A o'r Adendwm i'r ACI).

Crynodeb: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cyflwynwyd cyfanswm o chwe sylw yn ystod yr ymgynghoriad ar yr Adendwm i'r ARC, gydag ymatebion gan Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, ac aelodau o'r cyhoedd (Tabl 2). O'r sylwadau perthnasol a wnaed, roedd y themâu cyffredin yn cynnwys gweithfeydd trin dŵr gwastraff, ffosffadau, yn ogystal â materion eraill yn ymwneud â mân awgrymiadau/cywiriadau.

Tabl 1. Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr ACI. Mae testun mewn italig yn cynrychioli cynrychiolaeth. Mae'r rhifau cyfeirnod yn parhau o grynodedb ymgynghoriad Chwefror 2023.

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
ISAREP13	Wyn Thomas	<u>Darn a gymerwyd o lythyr dyddiedig 26 Mawrth 2024:</u>	Cydnabyddiaeth cynrychiolaeth.
	Dyfodol I'r Iaith Sir Gaerfyrddin	Cyf 2 o fewn Atodiad A o'r Adendwm i'r ACI <i>O gofio bod y drefn Cynllunio wedi ei sylfeini ar defnydd tir, gall y sylw am dwysedd poblogaeth arwain at ddadl o blaid gofod i adeiladu mwy o dai. Mae angen ychwanegu na ddylai hyn fod yn reswm dros adeiladu llawer mwy o dai yn y sir o ystyried bod y sir gyfan yn un o”sensitifrwydd ieithyddol” a’r canlyniadau iaith yng Nghyfrifiad 2021 sydd yn cael ei nodi ar dudalen 5. Stoc tai sydd bwysicaf nid defnydd tir.</i> <i>Nid oes sylw yn y blwch Goblygiadau. Mae’r gydnabyddiaeth o’r gostyngiad o 4% yn y ganran o siaradwyr Cymraeg ers 2011, a’r cynnydd o 5,200 ers 2011 yn y nifer heb unrhyw Gymraeg yn drawiadol ac angen sylw.</i> <i>Yn wyneb y ffigurau trawiadol o bryderus [cofier gostyngiad o 10% ers 2001] mae angen pwylllo adeiladu tai 3 neu 4 llofft heblaw eu bod yn ateb gofyn lleol, nes bod ehangu’r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ysgolion wedi ei gwblhau a bod system drochi oedolion effeithiol wedi ei sefydlu a phrofi yn llwyddiannus</i> <i>Rydym yn nodi mai cyfeirio at y gallu i siarad Cymraeg mae’r graffiau. Yr hyn sydd yn angenrheidiol i gynnal iaith hyfyw yw’r defnydd ohoni. Mae canlyniadau iaith Cyfrifiad 2021 yn dangos bod cymunedau sydd yn medru clywed defnydd cyson o’r Gymraeg yn prinhaus yn gyflym.</i> <i>Mewn gwirionedd mae’r ffigurau a’r graffiau ar dudalennau 5 a 6, os nad yn gyfaddefiad o fethiant, yn tanlinellu maint yr her i awdurdod sydd yn honni bod y Gymraeg yn greiddiol i’w waith</i>	Mae Cyfeirnod 2 yn diweddarau'r data sylfaenol. Fel y manylir ym Mhennod 4 yr ACI, mae'r Rheoliadau AAA yn ei gwneud yn ofynnol i'r ACI gynnwys sylwebaeth ar yr effaith a ragwelir ar y llinell sylfaen amgylcheddol, gyda a heb weithredu'r CDLI diwygiedig. Yn y bôn, mae Atodiad B yn grynodedb a choladiad ar ymarfer casglu gwybodaeth. Mae cynnwys y diweddariad hwn (ymhlith eraill) yn sicrhau bod y llinell sylfaen yn parhau i fod yn gyson â'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Gwnaed sylwadau ar oblygiad y newid ar gyfer Cyf 2 (gweler tudalen 4, Atodiad A, Adendwm 'I'r ACI . Yn anffodus, roedd y tabl sy'n cael ei ledaenu ar draws sawl tudalen yn gwneud hyn yn aneglur. Gellir ystyried ymhellach yn ystod yr archwiliad. Gwneir cyfeirio at y Diweddariad Tystiolaeth Iaith Gymraeg: Ebrill 2024 sy'n ystyried canlyniadau manwl Cyfrifiad Poblogaeth 2021 a gyhoeddwyd ers mis Rhagfyr 2022.
	Megis uchod	Cyf 6 o fewn Atodiad A o'r Adendwm i'r ACI <i>Iaith gynhenid Cymru ers cyfnod y Rhufeiniaid yw’r Gymraeg a ddatblygodd o’r Frythoneg. Mae angen ymrwymiad tebyg, os nad fwy cadarn na’r sylw am y sipsiwn, i ddiwylliant cynhenid y sir sydd, fel mae’r ddogfen yn nodi, yn wynebu heriau niferus a dyfodol ansicr.</i>	Sylwadau a nodwyd.
ISAREP15	Megis uchod	Cyf 20 o fewn Atodiad A o'r Adendwm i'r ACI <i>Y Cyfrifiad yw’r llinyn mesur mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio. Cydnabyddiaeth bod cynnydd o 4.8% yn y ganran heb unrhyw sgiliau Cymraeg ers 2011. Mae’r gydnabyddiaeth mai yn Sir Gaerfyrddin gwelwyd y gostyngiad mwyaf o holl awdurdodau Cymru yn tanlinellu’r angen i leihau’r cyfanswm tai y bwriedir eu hadeiladu, i ddwysau y gwaith o Gymreigio’r gyfundrefn addysg ac i sefydlu system gymathu effeithiol ar gyfer oedolion sydd yn dod i fyw yn y sir. [Cofier bod y ganran “anwyd tu allan i Gymru” wedi codi o 24% i 26.4% yn yr un cyfnod.]</i> [Miliwn o siaradwyr Cymraeg] <i>Beth yn union yw’r cynnydd hwnnw?</i> <i>[... yn enwedig o fewn ardaloedd gwledig yn Sir Gaerfyrddin sy'n gadarnleoedd hysbys i'r Gymraeg.] Edrycher ar ganlyniadau’r Cyfrifiad i weld pa ardaloedd sydd â’r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg. Nododd Dr Dylan Phillips yn ei ddadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad Iaith 2011, effaith mewnfudo ar nifer helaeth o gymunedau gwledig y sir. Mae’r dirywiad hynny wedi parhau. Ardaloedd Cymreiciaf y sir, er gwaethaf y dirywiad sylweddol yn nyffryn Aman, yw y wardiau ôl ddiwydiannol yn ne ddwyrain y sir [y pump uchaf]</i> [Cynnydd mewn darpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg...] Sylw: Noder “ceisio” ac “o bosibl” <i>1. Faint o ysgolion a ffrydiau Cymraeg newydd sydd wedi eu creu yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf?</i> <i>2 Faint o blant sydd yn mynychu yr ysgolion a ffrydiau cyfrwng Cymraeg a faint sydd yn yr ysgolion a ffrydiau cyfrwng Saesneg?</i> <i>3 Pa dystiolaeth sydd gan y Cyngor Sir bod disgyblion o deuluoedd di-Gymraeg sydd yn mynychu ysgolion a ffrydiau Cymraeg yn defnyddio’r Gymraeg yn y cartref ac ymhlith cyfoedion?</i>	Sylwadau a nodwyd. Er gwaethaf colli siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2021, mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gwneud ei orau glas i gyfrannu mewn ffordd ystyrlon at nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i filiwn erbyn 2050. O ran eglurhad ychwanegol ar oblygiadau Cyfeirnod 20, diwygiwyd y newid yn llinell sylfaen y dyfodol yng ngoleuni cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021. Penderfynwyd ar dueddiadau'r dyfodol ar y dystiolaeth orau a oedd ar gael ar adeg ysgrifennu. Waeth beth yw'r cynnydd a nodwyd dros y blynyddoedd diwethaf a'r darpariaethau a wnaed ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg (yn enwedig drwy ysgolion), ni welwyd canfyddiadau'r cyfrifiad diweddar yn cyd-fynd â'r rhagfynegiad gwreiddiol a nodwyd gydag Adroddiad ISA. Mae'n bwysig nodi bod yr ISA yn ei gyfanrwydd yn asesiad technegol sy'n llywio cynhyrchu a gwerthuso'r CDLI, ac

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
		<i>4. Pa gyfundrefn drochi gynhwysfawr sydd dan sylw yn y ddogfen, a pha dystiolaeth sydd i ddangos llwyddiant y polisi trochi?</i> Angen eglurhad ar y frawddeg ganlynol.... [Yn dilyn adolygiad, barnwyd nad oedd y gwaelodlin uwch yn achosi unrhyw effaith bellach] Mae'n rhy hwyr i fesurau lliniaru. Nid aspirins wedi trawiad sydd eu hangen ond osgoi'r trawiad. Mae tabl 5 , Cyf.20 ar dudalen 14, lle newidiwyd “Gwella” i “Dirywio” yn dangos nad yw mesurau lliniaru wedi gweithio hyd yn hyn, ac nid oes dystiolaeth byddant yn fwy llwyddiannus i'r dyfodol.	ni ddylid ei ddehongli fel gobaith ffurfiol a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Er bod nodi tueddiadau yn anodd ac yn parhau i fod yn hapfasnachol, mae'n ofynnol i'r ISA archwilio tueddiadau o dan senario 'dim cynllun'. Er bod dadansoddi tueddiadau'n helpu i dynnu sylw at broblemau cynaliadwyedd presennol a phosib, mae'n bwysig nodi mai prif swyddogaeth yr ISA yw asesu'r effaith sy'n gysylltiedig â'r CDLI. Er gwaethaf y newid yn y llinell sylfaen a wnaed drwy Ref 20, mae adolygiad dilynol o'r cynlluniau'n effeithio ar y Gymraeg yn parhau heb ei newid. Mae'r casgliad hwn yn gyson â Diweddariad Tystiolaeth y Gymraeg: Ebrill 2024.
ISAREP16	Megis uchod	Paragraff 7.0.6 o Adroddiad yr ACI [Mae'n hanfodol bod y Gymraeg yn cael sylw dyladwy wrth weithredu'r CDLI diwygiedig, yn enwedig yng ngoleuni canfyddiadau cysylltiedig Cyfrifiad 2021] Mae hyn yn ddatganiad addawol ond yna... [yn ogystal â monitro rheolaidd (fel y cynigir ym Mhennod 8 ac o fewn gwaith monitro blynyddol) bydd cyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol penodedig cyfredol ar gyfer mabwysiadu'r CDLI diwygiedig arfaethedig yn helpu i sicrhau hyn] Beth yw'r system fonitro rheolaidd a pha gamau dilynol gallwn eu disgwyl? Sut bydd cyhoeddi SPG penodedig o gymorth i'r Gymraeg? Beth yw cynnwys y SPG ac a yw'n destun ymgynghoriad?	Sylwadau a nodwyd. Caiff y CDLI ei fonitro drwy Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMR) a'r fframwaith monitro arfaethedig sydd wedi'i gynnwys yn yr ISA (gweler Pennod 8 o Adroddiad ISA, fel y'i diwygiwyd gan Ref 19 a 21 o'r ISA Addendum). Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn darparu'r sylfaen ar gyfer monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd y CDLI ac, yn y pen draw, yn penderfynu a oes angen unrhyw ddiwygiadau. Pan gânt eu cyflawni, cyflwynir y rhain i Lywodraeth Cymru ac maent ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan. Mae pob CCA yn destun ymarfer ymgynghori cyhoeddus, sy'n rhan annatod o'r broses tuag at fabwysiadu fel ystyriaethau materol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Cynigir ystyried y CCA ar gyfer WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd i'w fabwysiadu ar yr un pryd â'r CDLI. Rhoddir cyfeirio at destun esboniadol WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd sy'n amlinellu'r cynnwys a fwriadwyd.
ISAREP17	Louise Edwards Cyfoeth Naturiol Cymru	<u>Darn a gymerwyd o lythyr dyddiedig 28 Mawrth 2024 ac a gyfieithwyd wedyn fel:</u> <i>Rydym wedi adolygu'r Crynodeb Annhechnegol o ACI Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018-2033, 2il Gynllun Adneuo Chwefror 2024 a'r Adendwm i ACI Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018-2033, 2il Gynllun Adneuo Chwefror 2024 a chefnogi'r newidiadau, felly nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud.</i>	Cydnabyddiaeth cynrychiolaeth.
ISAREP18	Melanie Lindsley Yr Awdurdod Glo	<u>Darn a gymerwyd o lythyr cydnabyddiaeth dyddiedig 28 Mawrth 2024 ac a gyfieithwyd wedyn fel:</u> <i>Nodir fodd bynnag bod yr ymgynghoriad cyfredol hwn yn ymwneud ag ACI ac ARCa gallaf gadarnhau nad oes gan y tîm Cynllunio yn yr Awdurdod Glo unrhyw sylwadau penodol i'w gwneud ar y dogfennau hyn.</i>	Cydnabyddiaeth cynrychiolaeth.

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
ISAREP19	Y Cynghorydd Meinir James	<u>Darn a gymerwyd o ymateb brys dyddiedig 2 Ebrill 2024:</u> Adroddiad yr ACI (Paragraff 1.4.9) <i>Mae'r nodyn yma'n cyfeirio at yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg "ar gyfer y dystiolaeth gefnogol a'r sylwebaeth o ran yr effaith ar y Gymraeg" Ond o ddarllen fersiwn Rhagfyr 2022 (nid wyf yn gallu gweld fersiwn mwy diweddar ar y wefan) mae ffigyrau Cyfrifiad 2011 wedi'u defnyddio i wneud yr asesiad (tudalen 27). Dylid ail-lunio'r asesiad ar sail ffigyrau Cyfrifiad 2021 gan y gallai hyn newid yr asesiad yn sylweddol iawn. Os oes fersiwn mwy diweddar wedi'i wneud eisoes, byddwn yn falch i gael derbyn copi neu cael fy nghyfeirio ato.</i>	Cydnabyddiaeth cynrychiolaeth. Gwneir cyfeirio at y Diweddariad Tystiolaeth Iaith Gymraeg: Ebrill 2024 sy'n ystyried canlyniadau manwl Cyfrifiad Poblogaeth 2021 a gyhoeddwyd ers mis Rhagfyr 2022.
ISAREP20	Megis uchod	Adroddiad yr ACI (Tabl 2) <i>Dylai'r colofnau ar gyfer llinell Y Gymraeg (materion cyfatebol yr AAS) fod â chroesau perthnasol yn yr un blychau a'r linell am diwylliant/iaith o dan nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae lechyd a Llesiant ag Addysg a Sgiliau yn gwbwl berthnasol i'r Gymraeg ac fe ddylid nodi hynny yma.</i>	Sylwadau a nodwyd. <i>Mae Tabl 2 yn darparu cymhariaeth o amcanion ISA yn erbyn y Materion AAA cysylltiedig, nodau llesiant cenedlaethol, a gofynion atodol gan gynnwys asesiadau effaith pwrpasol eraill a wneir. Arweiniodd gwall fformatio at hepgor "... Asesiad o'r Effaith " (h.y., y WLIA) ar y Gymraeg. Fel yr amlinellwyd yn y testun blaenorol, mae'r WLIA yn rhan integredig ac annatod o'r ISA (ochr yn ochr â'r asesiadau priodol eraill a nodir yn y tabl hwnnw).</i> <i>Mae'r cysylltiad rhwng gwrthwynebiadau ISA a'r elfennau eraill a amlinellir yn cael ei bennu gan y Fframwaith ISA (Atodiad C) a gyd-ddyluniwyd trwy ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mewn ymdrech i symleiddio'r asesiad, crëwyd is-amcanion a dylanwadau gwneud penderfyniadau ar gyfer pob amcan ISA. Nid yw'r Gymraeg yn cydberthyn â'r rhai ar gyfer ISA12 nac ISA13. Serch hynny, nid yw'n cydberthyn ag ISA9 chwaith, fel y nodir yn anghywir yn Nhabl 2. Gellir ystyried ymhellach yn ystod yr archwiliad.</i>
ISAREP21	Megis uchod	Adroddiad yr ACI (Tabl 5) fel y'i diwygiwyd gan Gyf 20 o'r Adendwm i'r ACI <i>[ISA11 – Y Gymraeg] Mae'n briodol i roi darlun realistig o'r sefyllfa a nodi y 'gall mewnfudo a ffactorau eraill effeithio'n negyddol ar gyfran y siaradwyr Cymraeg drwy herio pontio iaith, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin..” Nid yw'r cynnydd cyfrwng Cymraeg yn y ddarpariaeth addysg a'r sustem trochi, yn ddigonol i “liniaru'r effeithiau tebygol sy'n gysylltiedig â'i gynigion”. Mae'n rhaid i'r Gymraeg fod yn iaith gymunedol i oroesi a chael twf yn y siaradwyr Cymraeg ac nid yw dibynnu ar y sustem addysg yn unig yn ddigonol i wneud hyn. Er bod y sustem addysg yn mynd i gynyddu'r nifer o blant a phobol ifanc sy'n gallu siarad yr iaith, oni bai bod cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned a'r sefyllfa bresennol yn cael ei chadw, ni welir twf yn y nifer o siaradwyr yn Sir Gar.</i>	Cydnabyddiaeth cynrychiolaeth. Gwneir cyfeirio at y Diweddariad Tystiolaeth Iaith Gymraeg: Ebrill 2024 sy'n ystyried canlyniadau manwl Cyfrifiad Poblogaeth 2021 a gyhoeddwyd ers mis Rhagfyr 2022.
ISAREP22	Megis uchod	Adroddiad yr ACI (Atodiad H) <i>[Adran 2.7 o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg] yn rhoi awgrymiadau adeiladol a realistig ar gyfer sut liniaru'r effaith negyddol o'r CDLI ar y Gymraeg.</i>	Sylwadau a nodwyd.

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
ISAREP23	Megis uchod	Adroddiad yr ACI (Paragraff 6.2.10) <i>Mae cydnabyddiaeth yma bod “yr effeithiau negyddol hyn yn drech nag unrhyw fanteision ar lefel amcanestyniadau yr opsiynau twf” – h.y. mae mwy o niwed (sef lleihad yn nifer y siaradwyr) na fydd o dwf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y CDLI cyfredol. Byddai’n well gostwng cyfanswm nifer o dai a fwriedir eu hadeiladu i leihau’r niwed yma. Tra’n cefnogi a chydabod bod angen nifer fawr o dai fforddiadwr a thai i brynwyr cyntaf er mwyn sicrhau tyfiant economaidd a’r iaith Gymraeg , mae 8,822 yn amlwg yn ffigwr rhy uchel fel a gydnabyddir yn y pwynt yma ac yn yr adroddiad Asesiad Iaith Rhagfyr 2022.</i>	<i>Sylwadau a nodwyd.</i> Mae paragraff 6.2.10 yn rhoi crynodeb o arfarniad yr opsiynau twf diwygiedig. Fel y gwelir yn Nhabl 16, dangosir bod yr amcanestyniadau lefel uwch hynny yn cael effeithiau negyddol ar ISA11. Yn uwch yn yr achos hwn yn cyfeirio at y pennaeth a arweinir gan gyflogaeth ac ailseilio, ac, i raddau llai, duedd pymtheg mlynedd. Nodir effeithiau cadarnhaol a negyddol gyda’r rhagamcanion sy’n weddill. Cynigiwyd polisïau sydd wedi’u hymgorffori o fewn y cynllun i liniaru’r rhain. Serch hynny, daeth y WLIA i’r casgliad na fydd lefel y twf tai (8,822 o gartrefi, ynghyd â hyblygrwydd o 10%) yn effeithio’n negyddol ar yr iaith Gymraeg. Gellir ystyried ymhellach yn ystod yr archwiliad.
ISAREP24	Megis uchod	Adroddiad yr ACI (Tudalen 61 a 64) [SP8 Y Gymraeg a Diwylliant Cymru a Pholisi WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd] <i>Gan nad yw’r SP8 diweddaraf ar Y Gymraeg a Diwylliant Cymru wedi’i gyhoeddi i gyd-fynd gyda’r ymgynghoriad presennol nid oes cyfle gennym i wirio bod yr SP8 yma’n mynd i fod yn ddigon cryf fel mesurau i liniaru’r effeithiau ar y Gymraeg ac i sicrhau ei thyfiant yn Sir Gar. Dylai’r SP8 diweddaraf sy’n cyd-fynd gyda’r 2il CDLI, ddilyn a chynnwys y cynigion sydd yn Ffigur 3.1 Polisïau Strategol a manwl Drafft ar y Gymraeg (tudalen 56 o’r Asesiad o Effaith yr Ail Fersiwn Adneuo Drafft o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 ar y Gymraeg” (Rhagfyr 2022)). Yn ychwanegol, dylai pob Asesiad a Chynllun Gweithredu iaith gael eu paratoi yn broffesiynol ac annibynnol er mwyn i bob asesiad a chynllun a gynigir i fod yn gywir a di-duedd oddi wrth unrhyw ddatblygwyr.</i>	Sylwadau a nodwyd. Roedd y CDLI, ochr yn ochr â’r Adroddiad ISA, yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Ni wnaed unrhyw newidiadau i’r CDLI ers ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ar 17 Chwefror 2023. Roedd newidiadau tystiolaethol (gan gynnwys Ffosffadau) yn ei gwneud yn ofynnol i waith ychwanegol gael ei wneud ar gyfer yr ISA a’r HRA, ac felly cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ychwanegol i ganiatáu sylwadau cyhoeddus ar y dogfennau hyn. Cynhyrchwyd y CDLI (gan gynnwys polisïau SP8 a WL1) ac ISA (gan gynnwys y WLIA) fel rhan o broses ailadroddol. Roedd hyn yn cynnwys mewnbwn gan arbenigwyr annibynnol IAITH a BURUM, fel y disgrifir ym Mharagraff 4, Rhan 3, WLIA. Gellir ystyried ymhellach yn ystod yr archwiliad.
ISAREP25	Megis uchod	Adroddiad yr ACI (Tabl 26) fel y’i diwygiwyd gan Gyf 19 o’r Adendwm i’r ACI [Amcan ACI 13] <i>Bydd yn hanfodol bod y polisïau’n cael eu monitro’n ofalus a rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyfan yn digwydd er sicrhau twf yn y Gymraeg fel iaith gymunedol yn Sir Gaerfyrddin. O fonitro’n gyson bydd modd gweld mewn da bryd, os oes datblygiadau’n digwydd o fewn ein Sir heb yr asesiadau a’r cynlluniau i liniaru’r effaith ar y Gymraeg wedi’u cyflawni. Gobeithio wedyn y byddai modd addasu’r gofynion os gwelir nad yw’r polisïau a’r asesiadau priodol yn cyflawni’r gofynion i liniaru a sicrhau twf yr iaith Gymraeg.</i>	Sylwadau a nodwyd. Cytûn. Caiff y CDLI ei fonitro drwy Adroddiadau Monitro Blyneddol (AMR) a’r fframwaith monitro arfaethedig sydd wedi’i gynnwys yn yr ISA (gweler Pennod 8 o Adroddiad ISA, fel y’i diwygiwyd gan Ref 19 a 21 o’r ISA Addendum). Gyda’i gilydd, bydd y rhain yn darparu’r sylfaen ar gyfer monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd y CDLI ac, yn y pen draw, yn penderfynu a oes angen unrhyw ddiwygiadau. Pan gânt eu cyflawni, cyflwynir y rhain i Lywodraeth Cymru ac maent ar gael i’r cyhoedd ar ein gwefan.

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
ISAREP26	Elaine Edwards	<u>Darn a gymerwyd o ymateb brys dyddiedig 3 Ebrill 2024:</u> Adendwm i'r ACI (Atodiad A, Cyf 2) <i>Yn benodol mae'r ddogfen yn cyfeirio at ystadegau canlyniadau census 2021 yn hytrach na rhai 2011 sydd yn ddiweddariad pwrpasol ac yn sicrhau bod y wybodaeth yn fwy cyfredol.</i> <i>... Mae'r ystadegau yn frawychus o ran y Gymraeg. Mae cyfeirio at y Sir fel y "pedwerydd uchaf o hyd o ran canran y boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg" yn awgrymu nad oes problem o fewn y Sir o ran yr iaith. Mae hyn yn gamarweiniol tu hwnt. Mae'n amlwg bod sefyllfa'r iaith yn y sir wedi dirywio'n sylweddol a bydd yn parhau i waethygu heb gamau pendant gan y Cyngor i amddiffyn y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'r adran hon yn dangos yn glir bod y Cyngor Sir yn methu o ran y Gymraeg a does dim awgrym o sut i osgoi dirywiad pellach.</i>	Cydnabyddiaeth cynrychiolaeth. Gwneir cyfeirio at y Diweddariad Tystiolaeth Iaith Gymraeg: Ebrill 2024 sy'n ystyried canlyniadau manwl Cyfrifiad Poblogaeth 2021 a gyhoeddwyd ers mis Rhagfyr 2022. Nid yw cydnabod canlyniadau Cyfrifiad 2021, yn enwedig y rhai o'u cymharu â siroedd eraill, yn tanseilio difrifoldeb y canfyddiadau o bell ffordd. O fewn y cyd-destun cynllunio, mae'r CDLI yn cydnabod y sir gyfan fel ardal o sensitifrwydd ieithyddol ac mae'r polisïau ynddi yn ceisio sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i'r Gymraeg ffynnu a chaniatáu datblygiad priodol ar raddfa fach mewn cymunedau gwledig. Serch hynny, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn benderfynol o sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith fyw yng nghymunedau Sir Gaerfyrddin (rhoddir arwyddion i'n gwefan sy'n cynnwys Strategaeth Hybu'r Gymraeg (2023-28). Gellir ystyried ymhellach yn ystod yr archwiliad.
ISAREP27	Megis uchod	Adendwm i'r ACI (Atodiad A, Cyf 19) <i>"Cynnydd blynyddol (neu o leiaf dim gostyngiad)" fel Targed. Nid yw "dim gostyngiad" o ran Targed yn ddigonol. Dylid disgwyl cynnydd blynyddol ac annog hynny.</i>	Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 8 Adroddiad ACI, mae 'Targedau' yn hyn o beth yn helpu i nodi'r angen am gymryd camau adfer dilynol os na fodlonir yr amcan ACI hwnnw. Ni ddylid ei ddehongli fel amcan polisi ynddo'i hun. Mae diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan annatod o'r CDLld – cyfeirir at amcan strategol 11, gweledigaeth ar gyfer 'un Sir Gaerfyrddin', a pholisïau diogelu cysylltiedig. Er bod gan y CDLld fframwaith monitro ar wahân, os cafodd trothwy'r targed ar gyfer 13-2 ei sbarduno (yn unol â'r meini prawf asesu a gynigiwyd yn Nhabl 25) gall hyn arwain at adolygu'r cynllun ei hun, yn enwedig os na chaiff effaith negyddol sylweddol (yng nghyd-destun cwrpas y CDLld) ei adfer yn effeithiol. Mae hyn er mwyn cynnal cyrhaeddiad yr amcan ACI cysylltiedig, sef cynyddu lefelau llythrennedd (yn y Gymraeg a'r Saesneg) a rhifedd.
ISAREP28	Megis uchod	Adendwm i'r ACI (Atodiad A, Cyf 20) <i>Mae'n drist iawn ac yn destun pryder mai gwaelodlin y dyfodol ar gyfer y Gymraeg fydd "Dirywio." Credaf bod gan bolisiau'r Cyngor Sir rol enfawr i chware mewn diogelu'r iaith a chymunedau Cymraeg - ac mae'r Cynllun Datblygu Lleol a nifer y tai y bwriedir adeiladu erbyn 2033 yn allweddol. Er bod data am sgiliau Cymraeg, yn ol y ddogfen, wedi amrywio (oherwydd canlyniadau'r census a chanlyniadau'r Arolwg Blynyddol), credaf bod y datganiad "gan ei gwneud yn anodd penderfynu ar dueddiadau tebygol y dyfodol," yn anaddas. Y census sy'n rhoi'r canlyniadau mwyaf cadarn i ni o'r sefyllfa gyfredol ac mae hynny'n dangos yn glir mai dirywio yw sefyllfa'r iaith o fewn y Sir. Mae'n gamarweiniol tu hwnt i nodi bod "peth cynnydd" wedi bod tuag at y Miliwn o fewn y Sir gan ystyried canlyniadau brawychus census 2011 a 2021. Rhaid cofio hefyd mai nid ardaloedd gwledig y Sir yn unig sydd yn gadarnleoedd y Gymraeg. Mae'r ardaloedd ol-ddiwydiannol (Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth) yn allweddol ar gyfer dyfodol y Gymraeg, hefyd.</i>	Sylwadau a nodwyd. O ran eglurhad ychwanegol ar oblygiadau Cyfeirnod 20, diwygiwyd y newid yn llinell sylfaen y dyfodol yng ngoleuni cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021. Penderfynwyd ar dueddiadau'r dyfodol ar y dystiolaeth orau a oedd ar gael ar adeg ysgrifennu. Waeth beth yw'r cynnydd a nodwyd dros y blynyddoedd diwethaf a'r darpariaethau a wnaed ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg (yn enwedig drwy

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
			ysgolion), ni welwyd canfyddiadau'r cyfrifiad diweddar yn cyd-fynd â'r rhagfynegiad gwreiddiol a nodwyd gydag Adroddiad ISA. Mae'n bwysig nodi bod yr ISA yn ei gyfanrwydd yn asesiad technegol sy'n llywio cynhyrchu a gwerthuso'r CDLI, ac ni ddylid ei ddehongli fel gobaith ffurfiol a fabwysiadwyd gan y Cyngor. Er gwaethaf y newid yn y llinell sylfaen a wnaed drwy Ref 20, mae adolygiad dilynol o'r cynlluniau'n effeithio ar y Gymraeg yn parhau heb ei newid. Mae'r casgliad hwn yn gyson â Diweddariad Tystiolaeth y Gymraeg: Ebrill 2024. Gellir ystyried ymhellach yn ystod yr archwiliad.
ISAREP29	Megis uchod	Sylwadau cyffredinol <i>Mae cyfeiriadau at "ymdrechion i hyrwyddo / ceisio gwella / lliniaru effeithiau tebygol" a "lleihau o bosibl effaith niweidiol mewnfudo yn y tymor byr." Mae 'na gydnabyddiaeth felly o effaith niweidiol mewnfudo ond does dim manylion am gamau lliniaru na bwriad i leihau'r nifer o dai yn y CDLI. Beth yn union fydd y mesurau lliniaru? Beth yw'r camau all liniaru effeithiau hir dymor y niwed sydd wedi digwydd yn barod?</i> <i>Mae angen ystyried sut i amddiffyn y Gymraeg a chymunedau Cymraeg a'u traddodiadau.</i> <i>Mae'r Adendwm yn cydnabod ei fod yn hanfodol bod y Gymraeg yn cael sylw dyledus wrth weithredu'r CDLI diwygiedig. Sut fydd monitro cyson yn helpu heb weithredu cyson? Mae cyfeiriad at SPG penodol cyfredol. Does dim modd gwneud sylw ar hyn gan nad oes copi ar gael i'w ystyried.</i> <i>Hyd y gwelaf mae'r Adendwm sydd dan ymgynghoriad yn cydnabod y dirywiad sylweddol yn y data am y Gymraeg ond does dim atebion yn cael eu cynnig. Mae "ceisio / o bosib / ymdrechion" yn awgrymu ansicrwydd ar ran y Cyngor. Mae angen cymryd camau cadarn, clir er mwyn osgoi dirywiad sylweddol pellach yn y dyfodol agos. Nid yw'r newidiadau a awgrymir (mewn coch) yn y ddogfen hon yn mynd digon pell a nid yw'r iaith yn ddigon cryf a chadarn ar ochr y Gymraeg. Bydd angen gweithredu mesurau lliniaru cadarn dros ben i fynd i'r afael a'r problemau a'r bygythiadau sydd yn wynebu'r iaith yn y Sir ar hyn o bryd.</i> <i>Sylw cyffredinol: Mae'n anodd i berson lleyg ddarganfod pa ddogfennau sy'n berthnasol ar eich gwefan. Er mwyn sicrhau bod gennyf y ddogfen ACI cywir es i'r Llyfrgell a darganfod y dogfennau eraill oedd yn gysylltiedig. Maent yn ddogfennau swmpus, heriol i berson lleyg. Yn ogystal nid oedd copi o'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg yn y Llyfrgell - roedd ar gael yn unig ar lein. Pam? O ran swmp y ddogfen honno mae'n anodd darllen ar y sgrin ac mae'n gostus a llafurus i bobl brinto dogfennau o'r fath. Roedd nifer o'r dogfennau yn Llyfrgell Caerfyrddin ond ar gael yn Saesneg hefyd. Mae'n holl bwysig gwneud democratiaeth lleol yn agored i bawb.</i>	Sylwadau a nodwyd. Pwrpas yr ISA yw nodi unrhyw effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol tebygol y CDLI, yna awgrymu mesurau lliniaru perthnasol, yn y pen draw i helpu i wneud penderfyniadau a chyrhaeddiad datblygu cynaliadwy. Hysbyswyd dewis y strategaeth twf a ffefrir hefyd gan yr ISA (fel yr aseswyd yn Atodiad E) yn ogystal â'r WLIA (Atodiad H, Paragraff 2.4.3). O ran mesurau lliniaru a gyflwynwyd ar gyfer yr effeithiau negyddol hynny a nodwyd ar yr Iaith Gymraeg, mae SP8 a WL1 i'w hystyried fel polisïau lliniaru wedi'u hymgorffori (rhoddir arwyddion i Atodiad F a G). Mae pob CCA yn destun ymarfer ymgynghori cyhoeddus, sy'n rhan annatod o'r broses tuag at fabwysiadu fel ystyriaethau materol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae asesiadau effaith cysylltiedig y rLDP yn ddogfennau technegol. Rydym yn cyhoeddi crynodeb ISA annhechnegol sy'n rhoi trosolwg o'r broses arfarnu a chanfyddiadau'r asesiad. Er nad oedd yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad penodol hwn, cynhaliwyd saith sesiwn galw heibio ar draws y Sir ar gyfer yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus blaenorol ar y rLDP. Yn ogystal ag ar-lein, roedd yr holl ddogfennaeth ar gael, yn Gymraeg ac yn Saesneg, yng Nghanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor a phob llyfrgell gyhoeddus.

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
ISAREP30	Mair Evans	<u>Darn a gymerwyd o ymateb e-bost dyddiedig 3 Ebrill 2024:</u>	Cydnabyddiaeth cynrychiolaeth.
	Mudiad Amddiffyn Porth-y-rhyd (MAP)	Adroddiad yr ACI (Paragraff 5.3.1) <i>Braf yn wir oedd cyrraedd paragraff 5.3.1. a darllen:</i> “Yn ddiweddarach, argymhellodd yr Arfarniad Cynaliadwyedd y dylid gwneud mân neidiadau i'r geiriad, er mwyn cyfeirio'n uniongyrchol at bwysigrwydd y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin.” <i>Sylwer mai 'mân' newidiadau i'r geiriad yn unig sydd yma.</i> <i>Erys yr union nifer o safleoedd wedi'u clustnodi ar gyfer yr union un nifer o anheddau – llawer ohonynt yn ddatblygiadau arfaethedig o lawer mwy na 5 a 10 o dai mewn pentrefi bach.</i> <i>Gŵyr trigolion sawl pentref bach yn Sir Gaerfyrddin mor heriol yw'r dasg o wrthwynebu cais cynllunio unwaith y clustnodir safle yn y CDLI ar gyfer nifer fawr o dai.</i>	Mae rhai materion o'r gynrychiolaeth hon y tu hwnt i gwmpas yr ISA, y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hi.
ISAREP31	Megis uchod	Adroddiad yr ACI (Paragraff 6.6.7) <i>Diddorol oedd darllen [y paragraff hwn]</i> <i>Ar y darlleniad cyntaf mae'r hyn a honnir yn swnio'n rhesymol. Ceisir cyfiawnhau datblygu mewn ardaloedd gwledig 'er mwyn cadw (a gwella) cyfleusterau a gwasanaethau hanfodol yn yr ardaloedd rheiny' megis ysgolion, siop, trafnidiaeth gyhoeddus ayyb.</i> <i>Yn sicr, gallai nifer o newydd ddyfodiaid i bentref helpu i gadw ysgol ar agor o bosib ond erbyn hyn mae nifer o ysgolion pentrefi bach y wlad eisoes wedi'u cau e.e. Llanarthne, Mynyddcerrig, Idole</i> <i>Yn nes ymlaen mae'r drafft yn cyfaddef 'yn y tymor byr na fydd datblygiad o'r fath yn cael ei wasanaethu'n llawn gan drafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol rheolaidd, ac os yw cyfleusterau a gwasanaethau eisoes wedi'u colli yn yr ardaloedd efallai y bydd angen defnyddio ceir preifat.'</i> <i>Onid yw'r rhan fwyaf o bentrefi erbyn hyn yn amddifad o wasanaeth bysiau rheolaidd?</i> <i>Onid oes raid i weithwyr deithio i'r gwaith yn eu ceir?</i> <i>Onid oes raid i rieni ddanfôn eu plant i'r ysgol mewn ceir?</i> <i>Eir ymlaen: 'Y gobaith wrth ddarparu datblygiad dan reolaeth yw y bydd cyfleusterau a gwasanaethau'n cael eu cadw gan obeithio y byddant yn dychwelyd i ardaloedd gwledig er mwyn iddynt fod yn fwyfwy cynaliadwy yn y tymor canolig a'r tymor hir.'</i> <i>Onid breuddwyd gwrach yw hyn ac esiampyl arall o roi'r drol o flaen y ceffyl?</i> <i>Yn anffodus, nid felly y digwydd pethau go iawn. Ystyriwch rai o bentrefi'r sir.</i> <i>Er yr holl dai a godwyd yn Foelgastell nid oes yno siop, tafarn, ysgol, meddygfa na'r un gwasanaeth arall ac yn sicr ni welwyd cynnydd yn nifer y bysiau sy'n teithio drwy'r pentref.</i> <i>Diddorol darllen y pwynt olaf yn y paragraff dan sylw:</i> <i>“Gall gwefru Cerbydau Trydan hefyd fynd beth o'r ffordd at liniaru unrhyw effeithiau negyddol, gan y bydd angen i ddatblygiad newydd osod unedau gwefru trydan i annog pobl i ddefnyddio ceir trydan yn unol â'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy ar gyfer Cynllunio (PPC Fersiwn 11)'</i> <i>Breuddwyd gwrach arall os bu un erioed.</i> <i>Mae cais ar gyfer gor-ddatblygiad ym mhentref Porth-y-rhyd – cais i godi 42 o dai ble mae ar hyn o bryd bedwar ugain. Yn ôl y cynllun safle a gyflwynwyd bydd lle parcio ar gyfer 94 o gerbydau – ond ni fydd pwynt gwefru o gwbl. O leiaf gellir dadlau bod y datblygwyr arfaethedig hwn yn ddigon onest i sylweddoli mai prin iawn yw'r bobl sy'n medru fforddio prynu car trydan ar hyn o bryd o ystyried bod gwahaniaeth go sylweddol rhwng pris car cyffredin a char trydan.</i> <i>Gresyna MAP weld dadleuon o'r fath yn cael eu defnyddio dro ar ôl tro yn enwedig yn y Datganiad i Gefnogi'r Cais a lunir gan ymgynghorwyr cynllunio. Ni ddylid defnyddio dadleuon fel yr uchod i ystumio a cheisio cyfiawnhau datblygu safleoedd nad ydynt yn gynaliadwy ac yn sicr ni ddylid defnyddio'r fath ddadleuon i gyfiawnhau gor-ddatblygu mewn pentrefi.</i>	Sylwadau a nodwyd.
			Mae rhai materion o'r gynrychiolaeth hon y tu hwnt i gwmpas yr ISA, y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hi.

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
ISAREP 32	Megis uchod	Sylwadau cyffredinol: <i>Gwerthfawroga MAP y cyfle i fod yn rhan o'r broses ymgynghori y tro hwn eto a hyderir y rhoir ystyriaeth deg i'r sylwadau canlynol. Mae MAP yn ymgychu ar hyn o bryd yn erbyn cais cynllunio arfaethedig i godi 42 o dai – esiampl o or-ddatblygiad fydd yn sicr o newid cymeriad y pentref yn llwyr a rhoi hoelen arall yn arch yr iaith Gymraeg. Yn ogystal â'r gofid am yr iaith Gymraeg rhaid cyfaddef bod ffactorau eraill yn pery pryder gan mai pentref ar orlifdir yw Porth-y-rhyd lle mae eisoes broblemau parthed system garthffosiaeth sy'n gwegian a risg llifogydd. Mae hefyd bryderon am golli tir amaethyddol, y cynnydd o ran trafnidiaeth, y problemau a ddaw yn sgil dieithrio a'r ffaith na fydd y datblygiad arfaethedig hwn yn gynaliadwy.</i> <i>Dyrannwyd y safle hwn yn y cynllun mabwysiedig (CDLI 2006-2018) ac o ganlyniad ni fydd unrhyw 'newidiadau' polisi parthed yr iaith Gymraeg o unrhyw fudd yn ein brwydr ni gan ei bod bellach yn unfed awr ar ddeg! Fodd bynnag, teimlem reidrwydd i ymateb yn y gobaith y gall profiad ymgyrchwyr Porth-y-rhyd yn erbyn gor-ddatblygiad ymyrrol mewn pentref bach rywfodd rywsut gynorthwyo rhai o'r pentrefi eraill fydd yn wynebu tynged gyffelyb pan ddaw CDLI (2018 – 2033) i rym.</i> <i>Siom yn wir oedd gweld na fu oedi yn dilyn canlyniadau digalon Cyfrifiad 2021 (a gyhoeddwyd ar Ragfyr 6ed 2022) i ganiatáu cyfnod o amser i'r Adain Flaen-gynllunio ystyried yr hinsawdd ieithyddol a'r dirywiad yn nifer siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin cyn cyflwyno drafft terfynol o'r CDLI (2018 – 2033). Er bod MAP yn gwerthfawrogi'n burion yr angen i ganiatáu mwy o amser i swyddogion ddatrys Argyfwng Amgylcheddol ffosffadau yn yr afonydd, ni allem ddirnad pam nad oedd yn bosib oedi a hithau'n Argyfwng ar yr iaith Gymraeg gydag ond 39% o siaradwyr Cymraeg bellach yn y sir. Syndod yn wir oedd darllen yn Rhagair '2ail Fersiwn Adneuo Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig Sir Gaerfyrddin' i'r ddogfen honno gael ei chymeradwyo ar gyfer ymgynghori cyhoeddus yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar y 7fed o Ragfyr 2022 – bedair awr ar hugain wedi cyhoeddi data'r Cyfrifiad. Doedd dim modd dianc rhag y canlyniadau. Onid oedd eitemau newyddion yn tynnu sylw at y dirywiad yn enwedig yn sir Gaerfyrddin?</i> <i>Sylweddola MAP dasg mor heriol yw llunio CDLI ond NI ellir gwadu cymaint o effaith uniongyrchol a gaiff polisi cynllunio ar iaith y gymuned fel y tystiwyd mewn pentrefi led led y Sir dros y blynyddoedd.</i> <i>Deallwn bod 'newidiadau polisi penodol' sy'n effeithio ar y Gymraeg wedi cael eu gwneud yn dilyn Asesiad blaenorol a gynhaliwyd gan iaith a Burum ym mis Rhagfyr 2019 ond unwaith eto data Cyfrifiad 2011 yn unig oedd ar gael bryd hynny. Croesawn felly'r ffaith bod cwmni iaith a Burum wedi'u comisiynu unwaith eto yn 2023 i lunio Asesiad ac y 'bydd casgliadau'r asesiad diweddaraf, lle bo hynny'n berthnasol, yn cael eu mabwysiadu yn yr Asesiad Cynaliadwyedd Integredig'.</i> <i>Yn ôl y Cyfrifiad gwelwyd gostyngiad o 4% yn nifer siaradwyr Cymraeg y Sir rhwng 2011 a 2021 – y gostyngiad mwyaf fel pwynt canran o blith holl awdurdodau lleol Cymru. Dengys y data fod Sir Gaerfyrddin yn gartref i 72,838 o siaradwyr Cymraeg (gostyngiad o 5,200 ers 2011). Yn ogystal, trwy gymharu'r ddau gyfrifiad bu cynnydd o 4.8% yn nifer y bobl sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg. Mae'n wir y gall newid o ran strwythur oedran / demograffig effeithio'n negyddol ond nid yw'r data'n syndod chwaith o ystyried yr holl fewnfudo a fu yn ystod y pandemig gyda phobl yn llifo i mewn i'r Sir. Bellach mae 1 o bob 4 o drigolion y sir wedi'u geni y tu allan i'r Sir. Er mai Sir Gaerfyrddin yw'r 4edd uchaf o hyd o ran canran y boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg rhaid cadw mewn cof mai yma yn Sir Gaerfyrddin y gwelwyd y dirywiad mwyaf yng nghanran siaradwyr Cymraeg mewn unrhyw ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Ceisir honni yn y ddogfen hon y gall y cynnydd yn nifer yr ysgolion Cymraeg ynghyd ag ymdrechion i hyrwyddo trochi yn yr iaith (yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg) leihau effaith niweidiol mewnfudo yn y tymor byr. Yn amlwg dibynna hyn yn llwyr ar barodrwydd rhieni i anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg a'u diddordeb hwythau fel oedolion i ymroi i ddysgu'r iaith. Mae mwy o siawns i rieni plant dan 9 oed optio am addysg Gymraeg i'w plant, gyda rhieni plant 9 – 11 oed yn gofidio ei bod yn rhy hwyr cyn y cam nesaf o symud i ysgol uwchradd. Yn fwy na thebyg, mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg a wna'r newydd ddyfodiaid sydd dros 11 oed hefyd.</i> <i>Cyfeiriwyd eisoes at y modd y gall newid mewn demograffeg effeithio ac yn sicr mae'r ffaith bod cyfradd genedigaethau'r Sir wedi gostwng a mwy o bobl ifanc yn gadael wedi dangos ei ôl. Wrth drafod Poblogaeth (Tud 28) nodir bod 'polisi tai fforddiadwy presennol y CDLI yn parhau i gefnogi stoc tai fforddiadwy, ac mae targedau polisi lleol ar gyfer 2022- 2027 yn cynnwys creu dros 1,000 o dai fforddiadwy i hyrwyddo cadw pobl ifanc.' Onid prinder gwaith a diffyg swyddi mewn amrywiol feysydd sy'n arwain at yr allfudo hwn NID diffyg tai?</i> GOR-DDATBLYGU a'r IAITH GYMRAEG	Sylwadau a nodwyd. Mae rhai materion o'r gynrychiolaeth hon y tu hwnt i gwmpas yr ISA, y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â hi. Gwneir cyfeirio at ganfyddiadau'r WLIA a'r Diweddariad Tystiolaeth iaith Gymraeg dilynol: Ebrill 2024.

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
		<i>Er bod MAP yn derbyn bod nifer o resymau amrywiol wedi arwain at y dirywiad yn nifer siaradwyr Cymraeg, ni ellir gwadu bod caniatáu gor-ddatblygu mewn pentrefi bach wedi cael effaith andwyol ar iaith y gymuned a chymeriad y pentrefi rheiny. Wrth grwydro'r Sir ni ellir peidio â sylwi ar y pentrefi sydd wedi gweddnewid yn llwyr o ran maint a chymeriad, a dagrau pethau yw mai prin y clywir yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad. Nid dyrnaid o bentrefi'n unig yw'r rhain ond mae rhestr hyd braich o 'bentrefi a gollodd y frwydr.' Byddai'n ddiddorol petai arolwg yn cael ei wneud nawr o nifer siaradwyr Cymraeg y pentrefi rheiny.</i> <i>Cytuna MAP yn llwyr bod angen adeiladu mewn pentrefi er mwyn cadw pentrefi'n fyw yn ogystal â diwallu'r angen yn lleol am gartrefi fforddiadwy a chartrefi o safon i'w rhentu gan deuluoedd.</i> <i>OND mae gwahaniaeth mawr rhwng caniatáu clwstwr o dai ar y naill law a fyddai'n ddatblygiad organig, naturiol, a chaniatáu gor-ddatblygiad ymyrrol ar y llaw arall.</i> <i>Gwerthfawrogwn hefyd ei bod yn bolisi gan yr Adain Flaen-gynllunio i sicrhau bod pob pentref yn derbyn ei gwota. Nid oes gan MAP unrhyw wrthwynebiad i'r argymhelliad hwnnw chwaith OND rhaid i'r Adain Flaen-gynllunio dderbyn ar adegau nad oes safleoedd addas ar gyfer eu datblygu mewn ambell bentref. Cymerer Porth-y-rhyd fel esiampl: dyma bentref ar lawr dyffryn, o fewn gorlifdir a phrif biblinell Brianne – Felindre yn tramwyo trwyddo. Oblegid hynny a'r ffaith na chaniateir datblygiadau o fewn pellter penodol i'r biblinell er mwyn sicrhau clustogfa ddiogelwch, tasg heriol iawn yw darganfod safleoedd addas. Mae'n fwy na thebyg bod nifer o bentrefi eraill hefyd o fewn y sir gyda phrinder safleoedd addas ac na allant dderbyn y cwota disgwyledig o dai.</i> <i>Yn ddelfrydol hoffai MAP weld polisi diogelu pentrefi tebyg i'r hyn a welir yn Lloegr pan ganiateir clystyrau bach o dai yn hytrach na gor-ddatblygiadau. Rhaid cofio bod Llywodraeth Cymru yn ystyried mwy na 10 o dai yn ddatblygiad mawr.</i> <i>Pam caniatáu gor-ddatblygu pentrefi bach a chymaint o ardaloedd 'brown' ar gael o fewn y sir? Onid gwell fyddai datblygu'r rhain yn hytrach na thargedu pentrefi?</i> <i>A beth am yr holl adeiladau gwag – yn dai a swyddfeydd ac ati mewn trefi?</i> <i>Yn ôl ymchwil gan gwmni Good Move (Awst 2021) roedd 2,964 o dai gwag yn Sir Gaerfyrddin. Dyma'r nifer uchaf ymhlith siroedd Cymru.</i> <i>Mae amcangyfrif y Cyngor Sir yn nodi yn agos at 2,000 o dai gwag yn y sir.</i> <i>Cysylltodd MAP â'r Cyngor Sir i holi am y data diweddaraf a dyma'r wybodaeth a dderbyniwyd.</i> <i>Ar Ebrill 1af 2023 roedd 1,984 o dai gwag yn Sir Gaerfyrddin – a gwelwyd cynnydd yn y nifer i 2,207 erbyn diwedd chwarter olaf y flwyddyn. Derbyniwn bod nifer o resymau dros hyn megis yr arafu a fu yn y farchnad dai oherwydd cyfraddau benthyg uwch, problemau yn sgil cyfnod profeb, y ffaith bod y Cyngor Sir yn manteisio ar gyfnod di-denant i wneud gwelliannau i'r eiddo ayyb ond mae dros 2,000 o dai gwag yn ffigwr rhy uchel.</i> <i>Dengys y data hefyd y cyfnod o amser y bu'r tai rheiny'n wag:</i> <i>• 20% yn wag am 6 – 12 mis</i> <i>• 31% yn wag rhwng blwyddyn a dwy flynedd</i> <i>• 23% yn wag am 2 – 5 mlynedd</i> <i>• 26% yn wag am dros 5 mlynedd.</i> <i>Gan mai pentref yn Ward Llanddarog yw Porth-y-rhyd holwyd am nifer y tai gwag yn y Ward hwnnw.</i> <i>Ar ddechrau 2024 roedd 32 o dai gwag yn Ward Llanddarog.</i> <i>Mae MAP yn ymwybodol nad yw tai ar werth yn cael eu hystyried yn y broses o amcangyfrif yr angen am dai, a gallwn ddeall y rheswm dros hynny. Fodd bynnag, rhaid cofio bod y tai ar werth yn rhan bwysig o stoc dai y sir sydd ar gael i brynwyr.</i> <i>Mae'n amlwg bellach mai gwreiddyn y problem yw'r camsyniad a wnaed ar ddechrau'r broses o dderbyn yr amcanestyniadau a hynny yn wyneb llw o ddadleuon a thystiolaeth a brofai i'r gwrthwyneb.</i> <i>Dyna fan cychwyn y broblem.</i> 8822?	

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
		Roedd cynrychiolwyr MAP yn bresennol yn y cyfarfodydd cynnar rheiny yn 2011 pan drafodwyd y nifer o dai a fyddai eu hangen dros gyfnod y CDLI presennol. Bryd hynny, roedd yr argymhellion yn hollol hurt – dros 20,000, yna 16,500 yn raddol ostwng i 15,500. Yr un modd heriodd MAP y targed hollol annerbyniol o 8,822 a nodwyd yn y drafft o'r CDLI hwn. Er bod MAP yn cytuno bod angen darparu tai fforddiadwy a thai i'w rhentu i gwrdd â'r angen yn lleol dadleuwyd nad oes unrhyw dystiolaeth gadarn bod angen y nifer hwn o dai. Onid oedd yr holl dystiolaeth yn seiliedig ar ymchwil arbenigwyr a sefydliadau eraill yn dangos yn glir bod hwn yn ffigwr llawer uwch na'r angen a dadleuodd MAP unwaith yn rhagor mai GOR AMCANGYFRIF dybryd ydoedd a allai arwain at OR DDATBLYGU. Byddai gor-ddatblygiadau ymyrrol fel hyn yn sicr o gael ardrawiad negyddol ar bentrefi – ardrawiad a fyddai i'w deimlo am flynyddoedd i ddod. Argymhellion y Cyngor Sir Er mwyn cryfhau Polisi SP8 Y Gymraeg a Diwylliant Cymru pasiwyd cynnig gan y Cyngor Sir ym mis Gorffennaf 2019 oedd yn galw am neilltuo'r Sir gyfan yn un o sensitifrwydd ieithyddol yn y CDLI diwygiedig, gyda'r bwriad o weld y Gymraeg yn Ystyriaeth Gynllunio berthnasol wrth reoli cynllunio. Yn ogystal â hynny cytunwyd y dylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol ym mhob datblygiad o 5 tŷ neu fwy mewn ardaloedd gwledig a 10 neu fwy mewn ardaloedd trefol a hynny ym mhob cymuned, beth bynnag fo canran y siaradwyr Cymraeg. Er bod yr argymhelliad uchod i'w groesawu - erys nifer o bryderon a chyfyd llawer o gwestiynau. Onid ydym wedi bod yn y sefyllfa hon o'r blaen pan oedd Asesiad Ardrawiad Ieithyddol yn 'ddymunol'? Ofna MAP weld yr un problemau'n codi pen unwaith eto ac erfyniwn ar i'r Cyngor Sir wneud yn siwr bod y polisi'n gadarn a chlir. Pwy yn hollol fydd yn asesu ac yn llunio'r adroddiadau? Ai cwmni safonol / achrededig? Neu a welwn nifer o gwmnïau'n tyfu dros nos fel y gwelwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn achos cwmnïau cyfieithu? A fydd y Cyngor Sir yn cyflogi cwmni diduedd neu a fydd y datblygwyr yn talu am asesiad 'ffafriol'? Faint o sylw a fwriedir ei roi i'r asesiadau hyn mewn gwirionedd? Onid oes esiamplau y gellir eu dyfynnu o'r cyfnod pan oedd asesiad iaith yn bodoli - ond i'r rhybuddion clir rheiny am ardrawiadau negyddol ar iaith y gymuned gael eu hanwybyddu ac i ganiatad gael ei roi? Mae'n anodd iawn i'r Adran Gynllunio wrthod cais yn enwedig os yw'r safle eisioes wedi'i ddyrannu yn y cynllun a'i glustnodi ar gyfer nifer fawr o dai. Ai rhyw getyn ddangos 'ewyllys da' yw'r bwriad i dawelu'r dyfroedd? Byddai rhai'n dadlau mai ffordd i'r Cyngorwyr osgoi dod i benderfyniad eu hunain fyddai hyn (gan adael i eraill benderfynu ar eu rhan) yn hytrach na mynd ati i sicrhau llunio polisi cynllunio cadarn fyddai'n diogelu iaith cymunedau i'r dyfodol. Yr unig ffordd o wneud hynny yw derbyn a chyfaddef i gamgymeriad dybryd gael ei wneud parthed yr amcanestyniadau adeg cam cyntaf y broses o lunio'r CDLI. Oni leisiwyd y neges yn glir gan lawer bryd hynny mai'r camgymeriad hwnnw yw craidd y broblem? (Llywodraeth Cymru, Dyfodol i'r Iaith, Cymdeithas yr Iaith ayyb). Roedd hyd yn oed ambell gynghorwr sir wedi gweld y 'golau coch' ac yn cwestiynu'r penderfyniad. Os na fydd y Cyngor Sir yn ddigon dewr i gydnabod bod camgymeriad wedi digwydd ar ddechrau'r broses, yna does dim amheuaeth nad dwysáu fydd y broblem wrth i'r 8,822 roi rhwydd hynt i or-ddatblygu ddigwydd mewn pentrefi a ddylai gael eu gwarchod. Yn ogystal â'r cwestiynau uchod parthed yr asesiadau arfaethedig mae sawl cwestiwn arall sydd angen ateb clir: - Beth yw'r diffiniad o'r 'angen yn lleol' erbyn hyn? - Beth yw'r diffiniad o 'fforddiadwy'? - Faint yw cost adeiladu cartref fforddiadwy erbyn hyn? Gyda chynnydd sylweddol yng nghostau deunyddiau adeiladu, bach iawn yw'r elw a wna'r datblygwr wrth adeiladu tai fforddiadwy ar safle. Ai dyna pam y gwelir cymaint o geisiadau nawr am gynyddu nifer tai ar safleoedd neu geisiadau am godi tai bonedd yn unig a rhoi swm o arian yn y pot cyffredinol? Pam na roddir ystyriaeth i ystadegau siaradwyr Cymraeg pentref yn hytrach na glynu'n slafaid wrth ystadegau Ward yn unig? Gwyddom bod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi ystyried y Gymraeg ond gan mai ystadegau Cyfrifiad a ddefnyddir nid yw'n wir ddangosydd o'r sefyllfa iaith mewn pentref. Mae synnwyr cyffredin yn dweud bod canrannau siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol bentrefi Ward yn amrywio'n fawr felly pam ddylsai pentref a chanddo ganran isel o siaradwyr Cymraeg amddifadu pentref arall rhag cael ei warchod rhag gor-ddatblygiad? Onid yw Llywodraeth Cymru'n argymhell i drigolion gynnal Arolwg Siaradwyr Cymraeg yn y pentref? Dyna a wnaeth MAP ar ran trigolion Porth-y-rhyd a chanfod bod canran siaradwyr Cymraeg y pentref hwn yn 68.5% - cymaint uwch na chanran siaradwyr Cymraeg Ward Llanddarog. Pan luniwyd canllaw polisi mai Canran Ward fyddai'n rheoli penderfyniad, roedd hynny flynyddoedd yn ôl yn ystod y broses o ddrafftio CDLI 2006-2018. Bryd hynny, pwy oedd i wybod cymaint fyddai'r dirywiad o ran siaradwyr Cymraeg Sir Gaerfyrddin?	

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
		<i>Nid ystyriwyd ychwaith y byddai'r CDLI hwnnw yn dal mewn grym yn 2024 ac o bosib am rai blynyddoedd i ddod cyn y mabwysiedir y CDLI dan sylw. Mae'n debyg erbyn i'r CDLI (2018 – 2033) gael ei fabwysiadu y bydd canlyniadau Cyfrifiad arall 2031 ar ein gwarthaf a dyn a wŷr beth fydd y gostyngiad pellach erbyn hynny.</i> <i>Yn achos datblygiad arfaethedig Porth-y-rhyd (sy'n safle a ddyrannwyd dan yr hen gynllun) gofynnodd MAP am i'r Cyngor Sir ystyried canran iaith y pentref (68.5%) yn hytrach na chanran y Ward (54.5%) gan y byddai hynny'n rhoi llygedyn o obaith i ddiogelu iaith y gymuned. Fel y gwyddoch mae i bentref sydd â chanran uwch na 60% arwyddocad ieithyddol arbennig. Cawsom ein hysbysu 'na fyddai'n briodol gwyro oddi wrth y canllawiau polisi'. Roedd hyn yn dipyn o siom yn enwedig pan ystyrir y nifer o weithiau y tystiodd MAP dros yr ugain mlynedd diwethaf i 'hyblygrwydd' a 'gwyro oddi wrth ganllawiau' o ran newid pethau i siwtio datblygwyr e.e. dwysedd, nifer anheddau a'r math o dai ac ati. Onid yw'n bwysicach lawer bod yn 'hyblyg' er mwyn diogelu iaith cymuned? Dyna pam y gofynnwn am i'r canllaw polisi presennol o ddefnyddio canran siaradwyr Cymraeg y Ward gael ei newid i roi ystyriaeth deg i ganran siaradwyr Cymraeg pentref unigol. O wneud hynny gellid diogelu Cymreictod cymaint o bentrefi sir Gaerfyrddin!</i> <i>Mae agos i bedair blynedd ers i'r Cyngor Sir alw ar 'i'r Gymraeg fod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol ym mhob datblygiad o 5 tŷ neu fwy mewn ardaloedd gwledig a 10 neu fwy mewn ardaloedd trefol'. Yn y cyfamser, tra'n aros i'r argymhelliad hwn ddod i rym tystiwyd i fwy a mwy o or-ddatblygu o fewn y sir. Mae'n gyfnod o sgrialu ('stampede') gyda'r holl ddatblygwyr yn awyddus i ruthro'r ceisiadau drwy'r broses cyn i gyfnod y CDLI mabwysiedig ddod i ben. Nid oes rheidrwydd o gwbl ar i ddatblygwyr nac ychwaith swyddogion yr Adain Flaen-gynllunio, ystyried yr ardrawiad negyddol a'r effaith andwyol a gaiff y gor-ddatblygu hwn ar iaith y cymunedau. Onid yw hynny'n ddigon o reswm dros bwylllo i sicrhau y bydd y polisi nesaf yn gwbl gadarn o ran diogelu'r iaith Gymraeg? Esbonir yn glir fanylion y broses yn y ddogfen hon ynghyd â nodi'r camau a gymerwyd wrth ystyried safleoedd ymgeisio.</i> <i>[Gweler ISAREP32]</i> <i>Yn waeth na hynny, gwyddom yn burion sut y gall nifer y tai gynyddu cymaint eto erbyn y cyfnod y bydd y datblygwr yn cyflwyno'r cais yn derfynol - fel y gwelwyd yn achos y safle arfaethedig ym mhentref Porth-y-rhyd. Yn 2014 pan ddyrannwyd y safle am 27 uned argymhellodd yr Adain Flaen-gynllunio godi rhyw 6 o dai ar y tro ar y safle er mwyn lliniaru'r ardrawiad. Dychmygwch sioc y pentrefwyr pan gyflwynwyd cais am 42 o anheddau. Yn anffodus, nid oes dim i warchod cymeriad clos y pentref na'r iaith gymunedol gan mai canllawiau polisi cynllunio'r hen gynllun mabwysiedig sydd mewn grym. Yn eironig iawn dad-ddyrannwyd yr union safle hwn ac nid yw'n cael ei gynnwys yn y CDLI diwygiedig. Rhyfedd o fyd!</i> <i>Mae'n debyg y bydd Porth-y-rhyd yn ymuno gyda'r holl bentrefi eraill a or-ddatblygwyd ac a gollodd y frwydr.</i> <i>Gwelais dros arwydd 'golud', Mae'r iaith ar werth ym Mhorth-y-rhyd.</i> <i>Mae hi mor bwysig gwrando ar dystiolaeth anecdotal trigolion y pentrefi dan sylw. Wedi'r cyfan nhw sy'n byw yno ac yn adnabod y pentref orau – o ran yr iaith gymunedol, y caeau draenio allweddol bwysig, y problemau sy'n bodoli eisoes o ran isadeiledd a system garthffosiaeth sy'n gwegian. Mae angen i swyddogion Blaen-gynllunio wrando ar y dystiolaeth a rhoi ystyriaeth deg i lythyron, datganiadau, ffotograffau ac ati. Mae cymaint o ddarnau bach jig-sô sydd angen eu casglu ynghyd i gael y darlun cyflawn cyn dod i benderfyniad.</i> <i>Mae'r un peth yn wir o ran yr asesiad iaith hefyd. Rhaid sicrhau bod pob darn o'r jig-sô ar gael ac edrych ar y darlun cyflawn – y pictiwr mawr – cyn caniatáu datblygiadau mewn pentrefi bach lle bydd yr ardrawiad ieithyddol gymaint gwaeth.</i> <i>Ar Fehefin 1af 2023 cyhoeddodd Comisiwn Cymunedau Cymraeg ganfyddiadau cyntaf yn eu hadroddiad rhagarweiniol – Papur Safbwynt. Cadeirydd y Comisiwn yw Dr Simon Brooks ac esboniodd y sefyllfa'n syml fel a ganlyn:</i> <i>“Pan 'dych chi'n codi stad o dai ar gyrion Caerdydd dydych chi ddim yn debyg o gael yr un math o 'impact' ieithyddol ag y byddech chi'n gael tasech chi'n codi stad o dai yng Nghrymmych...”</i>	

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
		<i>Cytunodd Jeremy Miles 'bod yr heriau sy'n wynebu cymunedau Cymraeg wedi dwysáu dros y blynyddoedd diwethaf."</i> <i>Meddai Dylan Bryn Jones (Prif Weithredwr Dyfodol i'r Iaith) :</i> "Mae canlyniadau'r Cyfrifiad yn rhybudd olaf am ddiflaniad llwyr y cymunedau Cymraeg... Pe bai rhywogaeth o anifail neu blanhigyn prin mewn perygl o ddiflannu, byddai cyfres o fesurau gwarchodol eisoes ar waith yn y cynefinoedd penodol hynny!" <i>Diddorol nodi yma i ddau arolwg ecolegol – un am bathewod – gael eu cynnal ar y safle arfaethedig ym Mhorth-y-rhyd ond nid oedd yr un gair am ddiogelu'r Gymraeg yn y pecyn cais o gwbl.</i> <i>Oni ddylid cyfrifo niferoedd y tai y bwriedir eu codi yn y pentrefi bach nawr ac asesu ardrawiad parhau â'r cynlluniau rheiny?</i> <i>Bydd yn rhy hwyr unwaith y bydd ceisiadau cynllunio yn eu lle.</i> <i>Dyna'n union a wnaeth MAP yn ddiweddar – mynd ati i edrych ar y safleoedd a ddyrannwyd eisoes ar gyfer y CDLI (2018 – 2033) gan nodi'r nifer o dai yr argymhellwyd eu codi ar bob safle. Oherwydd y trend arferol o chwyddo'r niferoedd yn ystod y broses (56% ar safle Porth-y-rhyd) aeth MAP ati i ganfod y gwir niferoedd posib.</i> <i>Un esiamp! yw Nantgaredig.</i> <i>Byddai rhai'n dadlau bod mwy na digon o adeiladu wedi digwydd yn y pentref hwn eisoes yn enwedig o gofio nad oes siop, Swyddfa'r Post, cyfleoedd gwaith, na thrafnidiaeth gyhoeddus reolaidd yno. Nid oes llwybrau seiclo a cherdded chwaith yn arwain i mewn ac allan o'r pentref. Mae'n wir bod yno Glwb Rygbi, ysgol gynradd a Meddygfa ond mae'r ysgol dan ei sang a'r Feddygfa bellach wedi cyrraedd cwota yn sgil yr holl niferoedd a gofrestrodd yno pan oedd sôn am gau meddygfa Crosshands.</i> [Gweler ISARE32] <i>Yn ddiweddar cyhoeddodd ambell ddatblygwr fwriad i liniaru'r effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg drwy "hysbysebu'n lleol yn unig draean (dyweder) o'r tai ar safle a hynny am gyfnod o wyth wythnos.' Er bod MAP yn croesawu ewyllys da a chonsyrn y cwmnïau hyn, teimlwn mai briwsion yn unig a gynigir. Unwaith eto rhaid ystyried y pictiwr llawn a gweld na wnai hyn fawr o wahaniaeth mewn gwirionedd i ganlyniadau negyddol gor-ddatblygu mewn pentref bach.</i> <i>Yr un modd, honna'r Cyngor Sir y bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i drigolion lleol rentu tai ond unwaith eto gwyddom oll bod ffactorau'n bodoli sydd y tu hwnt i reolaeth hyd yn oed y Cyngor Sir..</i> <i>Gresyna MAP nad ymatebodd y Cyngor Sir yn gadarnhaol i gais Jonathan Edwards AS am Foratorium i roi digon o gyfle i ail ystyried y polisi cynllunio.</i> <i>Croesewir yr asesiad a gynhaliwyd gan gwmni iaith a Burum yn Rhagfyr 2023 ond ni ellir gwadu mai'r hyn sydd yn hanfodol nawr yw ail ystyried yr amcanestyniadau a'r nifer o dai yr honnir sydd eu hangen i ddiwallu'r angen yn lleol. Os na wneir hynny bydd y llif ddorau led y pen ar agor!</i> <i>Dyma'r cyfle olaf o bosib' i sicrhau polisi clir a chadarn i warchod y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin.</i> <i>Rhaid sicrhau na fydd unrhyw risg o amwysedd, o gam-ddehongli nac ychwaith o ddarparu 'loop – hole' i ddatblygwyr y dyfodol hawlio mwy o dai gan or-ddatblygu pentrefi bach fel sydd wedi digwydd – ac sy'n dal i ddigwydd.</i>	

Tabl 2. Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae testun Italicized yn cynrychioli cynrychiolaeth. Mae’r rhifau cyfeirnod yn parhau o grynodeb ymgynghoriad Chwefror 2023.

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
HRAREP19	Louise Edwards	<u>Darn a gymerwyd o lythyr dyddiedig 28 Mawrth 2024 ac a gyfieithwyd wedyn fel:</u> 2 ^{il} Adendwm i'r ARC(Atodiad C) <i>Mae rhai mân newidiadau i'w gwneud er mwyn gwneud y ddogfen yn ffeithiol gywir, unwaith y bydd y newidiadau hyn wedi'u gwneud, byddwn yn cefnogi'r ail adroddiad adendwm. Mae'r ddogfen yn dal i gyfeirio at ddull hyblygrwydd yn y gwaith trin dŵr gwastraff. Dylid newid hyn i ddweud y bydd asesiad capasiti yn cael ei gynnal ar y gwaith trin dŵr gwastraff.</i>	Cydnabuwyd y sylw. Nid ystyrir bod y mân newidiadau hyn yn effeithio ar resymeg na chasgliadau cyffredinol yr Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd. Gellir ystyried hyn ymhellach yn ystod yr archwiliad.
	Cyfoeth Naturiol Cymru [3252]		
HRAREP 20	Megis uchod	2 ^{il} Adendwm i'r ARC(Atodiad C) <i>Mae Adran 5.3.2 Cefnogaeth CNC ar gyfer Mesurau Lliniaru ar ffurf Osgoi yn nodi - "Yn ogystal, yn ddiweddar mae CNC wedi rhannu eu dewislen liniaru 'fyw' a gynhyrchwyd gyda Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Rheoli Maetholion (NMBs)". Dewislen liniaru Llywodraeth Cymru yw hon ac un CNC. Gwnaethom ei chynhyrchu, ond nid ydym yn berchen arni.</i>	Megis uchod
HRAREP 21	Megis uchod	2 ^{il} Adendwm i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd <i>Mae'r ddogfen yn cyfeirio at hyblygrwydd trwydded, a fyddech cystal â newid hyn i "capasiti".</i>	Megis uchod
HRAREP22	Ruth Bagshaw	<u>Ymateb brys dyddiedig 22 Chwefror 2024 ac a gyfieithwyd wedyn fel:</u> Sylwadau cyffredinol: <i>Mae'r dogfennau'n amlwg yn ffafrio delweddau hardd, gwledig o Sir Gaerfyrddin. Mae'n bwysig bod yr harddwch gwledig hwn, a'r diwylliant a'r bioamrywiaeth a gynrychiolir ganddo yn cael ei gadw a'i wella. Fodd bynnag, rhaid mynd i'r afael â'r lefelau o amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd a wynebir gan y gymuned. Nid yw Sir Gaerfyrddin yn llai prydferth nac yn llai gwerthfawr na pharciau cenedlaethol cyfagos, ac eto mae ganddi gymaint yn llai o ddiogelwch statudol ac felly mae'n hanfodol y dylid datblygu unrhyw gynlluniau FEL PE BAI'R ardaloedd mwy digyffwrdd YN barc cenedlaethol, neu debyg. Dylem wrthsefyll trefoli a sefydlu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar wella gwledigrwydd, a dylai hyn olygu opsiynau ar raddfa fach, lleol, cynaliadwy, sy'n datgarboneiddio ac sy'n cefnogi mentrau bach gan ganolbwyntio ar fentrau gwledig, amaethyddol, diwylliannol, gweithgynhyrchu ar raddfa fach ac ati. Dyma sy'n gwneud Sir Gaerfyrddin yn unigryw ac sydd angen ei amddiffyn - awyr dywyll, dim peilonau, bywyd araf. Ar hyn o bryd gall y pethau hyn ymddangos yn wrthredol. Ond mae hi bron yn anochel y bydd y dyfodol yn fwy lleol. Gall adfer cysylltiadau teithio, fel trenau rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth, ymddangos yn rhy ddrud, ond yn y tymor hir maent yn debygol o fod yn amhrisiadwy ar sawl lefel y tu hwnt i'r economi - o ran iechyd, addysg, cyflogaeth a chyfoethogi diwylliannol</i>	Cydnabuwyd y sylw. Mae cynnal ARC ar gyfer CDLI yn ofyniad statudol, ac mae'n sicrhau y diogelir y Rhwydweithiau Safle Cenedlaethol (a elwid gynt yn safleoedd Ewropeaidd). Mae pwysau ehangach sy'n gysylltiedig â defnydd tir yn cael sylw mewn gwaith arall - yn enwedig yr ACI. Mae unrhyw effeithiau sylweddol (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) ynghylch cynaliadwyedd amgylcheddol, economaidd a/neu gymdeithasol yn cael eu nodi'n gynhwysfawr trwy'r ACI, ac wedi'u lliniaru wedi hynny trwy argymhellion a wnaed i'r tîm CDLIdd mewn modd integredig ac ailadroddol. Roedd fframwaith o amcanion yn sail gyson ar gyfer disgrifio, dadansoddi a chymharu effeithiau cynaliadwyedd y CDLIdd – roedd y rhain yn cynnwys tirwedd, bioamrywiaeth, iechyd, addysg, a theithio llesol.
HRAREP23	Sarah Eyles	<u>Ymateb brys dyddiedig 5 Mawrth 2024 ac a gyfieithwyd wedyn fel:</u> Sylwadau cyffredinol: <i>Hoffwn gyflwyno cwyn ffurfiol. Mae hi bron yn amhosibl i leygwr ddeall, cymhathu a rhoi sylwadau ar y cynlluniau hyn. Maent yn rhy gymhleth ac mae gormod ohonynt. Dylech greu dadansoddiad o brif feysydd y cynlluniau hyn yr ydych am i ni wneud sylwadau arnynt. Yn ogystal, dylech greu cyflwyniadau Zoom y gall pobl fynd iddynt, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Mae fel pe na baech chi wir eisiau ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y cynlluniau hyn.</i>	Cydnabuwyd y sylw. Mae asesiadau effaith cysylltiedig y CDLIdd yn ddogfennau technegol. Er ar wahân i'r ARC , rydym yn cyhoeddi crynodeb ACI annhechnegol sy'n rhoi trosolwg o'r broses arfarnu a chanfyddiadau'r asesiad. Er nad yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad penodol hwn, cynhaliwyd saith sesiwn galw heibio ar draws y Sir ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus blaenorol ar y CDLIdd.

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
HRAREP24	S Hooper	<u>Ymateb brys dyddiedig 28 Mawrth 2024 ac a gyfieithwyd wedyn fel:</u> Sylwadau cyffredinol: <i>Er fy mod yn falch o weld bod ARC wedi'i gynnal ar gyfer y CDLI diwygiedig fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, rwy'n pryderu nad yw effaith y CDLI diwygiedig ar gefn gwlad ehangach, bioamrywiaeth a chynefinoedd y tu allan i'r safleoedd dynodedig yn cael ei hystyried yn un sy'n deilwng o gael ei hasesu. Mae Sir Gaerfyrddin yn sir sy'n eithriadol o gyfoethog mewn bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol. Fodd bynnag, mae angen i hyn i gyd gael ei ddiogelu a'i wella. Yn flaenorol, rydym wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a ffotograffig ar rywogaethau a chynefinoedd a fydd yn dioddef effeithiau andwyol yn sgil datblygiadau o amgylch pentref Tre-lech; ar hyn o bryd mae DEFRA yn ymchwilio i'r ffermwr dan sylw ynghylch dinistrio cynefinoedd ac mae wedi gorfod gwneud adferiad yn y gorffennol. Fodd bynnag, ni all plannu coed ifanc wneud iawn am golli coed aeddfed sy'n sefyll yn ffordd "cynnydd" ac nid yw hyn yn gwneud unrhyw beth dros ymrwymadau'r Llywodraeth/Cynulliad i sero net a dal carbon. Mae Sir Gaerfyrddin yn sir sy'n llawn coetir, glaswelltiroedd llawn rhywogaethau, rhostiroedd a gweundiroedd yn ogystal ag afonydd a chynefinoedd dyfrol - dylid dathlu, gwarchod ac adfer y rhain yn hytrach na'u dinistrio neu eu difwyno. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gwerthu'r ardal hon i'r cyhoedd, i dwristiaid ac i fuddsoddwyr gyda lluniau o'n hamgylchedd naturiol trawiadol – bydd datblygiadau ar y raddfa ac yn y lleoliadau arfaethedig yn tynnu oddi wrth hyn.</i>	Cydnabuwyd y sylw. Mae rhai materion mewn perthynas â'r sylw hwn tu hwnt i gwmpas yr ARC , y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag ef. Serch hynny, mae effaith ehangach y CDLld ar yr amgylchedd wedi'i hunioni, yn enwedig gan fod yr amgylchedd ehangach yn elfen sylfaenol o'r ACI. Trwy asesu'r CDLld yn ei gyfanrwydd, mae'r effeithiau sylweddol posibl (cadarnhaol a negyddol) yn cael eu nodi'n gynhwysfawr trwy'r ACI, ac yna'n cael eu lliniaru wedi hynny trwy argymhellion a wnaed i'r tîm CDLld mewn modd integredig ac ailadroddol. Mae polisïau lliniaru'n rhan annatod o'r CDLld, er enghraifft, cynigir na chaniateir datblygiad a fyddai'n arwain at effeithiau amgylcheddol niweidiol annerbyniol neu nad yw'n arwain at wella bioamrywiaeth.
HRAREP25	Simon Barry (ar ran Barratt David Wilson (BDW) Homes South Wales)	<u>Darn a gymerwyd o lythyr dyddiedig 2 Ebrill 2024 ac a gyfieithwyd wedyn fel:</u> <i>Yn dilyn adolygiad o'r 2il Adendwm i'r ARC 2024, cododd BDW bryderon ynghylch y canlynol:</i> <i>Yr asesiad o'r Dyraniadau Safle a'r mesurau Lliniaru Ffosffad</i> <i>Effeithiau diffyg Hyblygrwydd yn y Trwyddedau ar gyfer Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff</i> Dyraniadau Safle a Lliniaru Ffosffad <i>Fel y gwyddoch o sylwadau blaenorol BDW i'r Ymgynghoriad ar Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo Sir Gaerfyrddin, codwyd pryder sylweddol ynghylch nifer y safleoedd yr oedd ffosffadau yn effeithio'n uniongyrchol arnynt a'r pryderon ynghylch y gallu i'w cyflawni'n briodol. Mae BDW yn argymell y dylai'r Cyngor ailystyried dosbarthiad gofodol dyraniadau tai i gynnwys dyraniadau ychwanegol y tu allan i'r Dalgylchoedd Sensitif i Ffosffad. Yn hyn o beth, mae BDW unwaith eto yn tynnu sylw at y ffaith bod eu dyraniad arfaethedig ar dir oddi ar Heol-y-Mynydd, y Bryn yn un y gellir ei gyflawni ac sy'n cael ei arwain gan y datblygwr, gyda BDW yn barod i symud y safle ymlaen. Yn unol â hynny, gall y Bryn/Llanelli ddarparu ar gyfer gofynion twf y dyfodol, a dylid cynnwys y tir oddi ar Heol-y-Mynydd, y Bryn fel dyraniad.</i> <i>O ran yr 2il Adendwm i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, mae BDW yn ymwybodol bod yr asesiad wedi'i ddiweddarau gan Arcadis yn Atodiad C o'r safleoedd a oedd yn destun adolygiad ARC fel rhan o'r rhestr derfynol o ddyraniadau safle ar gyfer y CDLI diwygiedig fel y'i darparwyd gan yr Awdurdod ym mis Hydref 2023.</i> <i>Nodir bod Cam 1 y CDLI diwygiedig – 'Canlyniadau Sgrinio Dyraniadau Safle' wedi dod i'r casgliad bod nifer o'r safleoedd, a amlygwyd yn flaenorol yn ein Tabl Ffosffadau cychwynnol a gyflwynwyd fel rhan o ymgynghoriad y Cynllun Adneuo, wedi cael eu 'cwmpasu i mewn' i gael eu hasesu ymhellach. Fodd bynnag, mae'r casgliadau a'r asesiad yn awgrymu bod y safleoedd hynny a 'gwmpaswyd i mewn' wedi cael eu hadolygu a'u bod i'w cadw fel dyraniadau, yn amodol ar y dulliau lliniaru arfaethedig.</i> <i>Yn gyntaf, mae BDW yn codi mater ynglŷn â'r angen i safleoedd gael eu 'cwmpasu i mewn' mewn perthynas â'r Dalgylchoedd Sensitif i Ffosffad, pan fod yna safleoedd eraill a arweinir gan y datblygwr ac a fyddai'n cael gwared ar yr holl ansicrwydd ac a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar Daflwybr Tai'r Cyngor. Ar hyn o bryd mae BDW yn ymwybodol bod yna dros 400 o anheddau arfaethedig wedi'u dyrannu o fewn y Dalgylchoedd Sensitif i Ffosffad ac y byddent yn destun mesurau lliniaru gofynnol. Mae hyn yn cyfrif am gyfran fawr o'r holl safleoedd a ddyrannwyd ac yn creu ansicrwydd wrth eu cyflawni.</i> <i>Mae BDW yn ailadrodd y dylid chwilio am safleoedd mwy addas ychwanegol sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r Ardaloedd Sensitif i Ffosffad. Mae tir oddi ar Heol-y-Mynydd, y Bryn yn lleoliad addas ar gyfer datblygu, gan ei fod wedi'i leoli ger anheddiad y Bryn/Llanelli ac y tu allan i Ardal Sensitif i Ffosffad.</i> <i>Yn ail, mae BDW o'r farn nad yw'r mesurau lliniaru arfaethedig, a amlygir yn yr ARC a'r Adolygiad Technegol o Opsiynau Lliniaru Maetholion (2023) yn delio'n sylfaenol â'r sefyllfa yn uniongyrchol, yn hytrach maent yn ceisio gwrthio'r effaith ymhellach ar hyd y broses ddyrannu/ymgeisio. Mae BDW yn deall bod y mesurau lliniaru canlynol yn cael eu cynnig i fynd i'r afael â'r materion ffosffad difrifol:</i> <i>Gwlyptiroedd Adeiledig</i> <i>Cronfa Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Uwchraddedig</i> <i>Asesiadau Effaith Datblygwyr</i>	Cydnabuwyd y sylw. Mae rhai materion cysylltiedig â'r sylw hwn tu hwnt i gwmpas yr ARC (h.y. cymorth i gynnwys y tir oddi ar Heol y Mynydd fel dyraniad) y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag ef. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ac i ganfod ateb i'r broblem hon. Cyhoeddwyd targedau diwygiedig gyda'r nod o leihau crynodiad ffosfforws mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn ôl ym mis Ionawr 2021, a chafodd hynny effaith sylweddol ar gytundeb cyflawni gwreiddiol y CDLld. Wedi hynny, gyda gwybodaeth gan asesiad pwrpasol ar ffosffadau i hysbysu'r ARC , ochr yn ochr ag ystyriaethau strategol eraill, adolygodd swyddogion cynllunio bob dyraniad unigol gyda'r bwriad o gadw'r rhai a fydd yn darparu'r buddion mwyaf gan gynnwys o ran diwallu anghenion tai a nodwyd yn yr ardal leol (yn unol â'r strategaeth a ffefrir).

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb
		- Caeau draenio carthion preifat - Gwelliannau i garthffosiaeth breifat - Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) - Lleiniau clustogi - Newid y defnydd tir amaethyddol - Ailnaturiolï sianeli afonydd - Trapïau gwaddod tirol - Rhwystro dyfrffosydd draenio Er bod BDW yn sylweddoli nad oes un ateb i'r mater ffosffadau, mae'r dulliau uchod yn dal i godi sawl pryder. O'r adolygiad o'r ARC a'r Atodiadau nodir y dylid lliniaru nifer o safleoedd trwy gyfrwng gwlyptiroedd adeiledig, ac er bod asesiadau dichonoldeb lefel uchel wedi'u cynnal, nid oes amserlen na manylion clir ar y mater hwn a byddai'n cael goblygiadau sylweddol ar gyflawni. Ymhellach, mae'r cynnig i uwchraddio Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff yn ddiffygiol ar hyn o bryd, fel y manylir ymhellach yn yr adran nesaf, ac er bod argymhelliad ar lefel y prosiect i ddatblygwyr ariannu Asesiad Effaith Datblygwr i nodi gwaith atgyfnerthu gofynnol pan nad oes capasiti / capasiti cyfyngedig, byddai hyn eto'n cael effeithiau ar gyflawni ac mae'n ddarostyngedig i nifer o ffactorau eraill gan gynnwys cyllid a chylchoedd AMP Dŵr Cymru. Mae mesurau eilaidd i atal llwyth ychwanegol ar rwydweithiau carthffosydd budr yn cynnwys ymgorffori Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ac atebion draenio dŵr wyneb eraill sy'n seiliedig ar natur mewn dyluniadau ar gyfer cynlluniau yn ogystal â mesurau ychwanegol i ddiogelu ansawdd dŵr a all gael eu sicrhau trwy Gynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu. Nid yw'r rhain yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r mater ffosffadau ac maent yn fesur lliniaru sy'n cael ei wthio i'r cam ymgeisio, ac nid ydynt yn darparu'r sicrwydd o gyflawni sy'n ofynnol gan y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (2020). Mae BDW o'r farn, er bod mesurau lliniaru yn cael eu darparu, bod yna gryn amwysedd a phryderon o hyd ynghylch effeithiolrwydd a'r gallu i gyflawni, ac unwaith eto maent yn argymhell bod tir oddi ar Heol-y-Mynydd, y Bryn yn lleoliad addas ar gyfer datblygu, gan ei fod wedi'i leoli y tu allan i Ardal Sensitif i Ffosffad. Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff – Hyblygrwydd/Capasiti Mae paragraffau 2.1.7 – 2.1.9 o'r ARCyn dynodi, yn dilyn ymgynghoriad diweddar â Dŵr Cymru, efallai na fydd gan rai dalgylchoedd gwaith trin dŵr gwastraff y gallu i ddarparu ar gyfer faint o dwf a gynigir yn y CDLI diwygiedig. Mae BDW yn ystyried bod hyn yn fater yn ymwneud â'r gallu i gyflawni ac maent yn nodi bod yr ARC yn cadarnhau'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff a nodwyd lle gallai rhai o ddyraniadau'r CDLI diwygiedig arwain at fynd y tu hwnt i'r capasiti a ganiateir, gan olygu y byddai'n debygol y byddai angen trwydded newydd neu drwydded wedi'i haddasu i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn y galw. I bob pwrpas, nid yw'r hyblygrwydd gweithredol posibl (neu ddiffyg hynny) sy'n gysylltiedig â phob trwydded amgylcheddol yn hysbys, ac mae'r ARC yn awgrymu dilyn dull rhagofalus sy'n gweithio ar y dybiaeth y gallai mynd y tu hwnt i'r capasiti a ganiateir arwain at effeithiau andwyol ar Safleoedd Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol sydd â chysylltiad hydrolegol. Mae BDW yn nodi bod y rhestr lawn o'r safleoedd a ddyrannwyd, y gallai eu capasiti a ganiateir brofi gormodedd, yn cael ei darparu yn Nhabl 3 yr ARC ac mae'n golygu y byddai'n effeithio ar dros 700 o anheddau, gyda llawer ohonynt eisoes o fewn yr Ardal Sensitif i Ffosffad. Mae'n amlwg bod hyn yn effeithio ar gyflawni dyraniadau'r CDLI diwygiedig, ac mae'r ARC yn cydnabod hyn ac yn nodi, er gwaethaf yr ansicrwydd ynghylch a fydd datblygwyr yn cyllido'r gwaith eu hunain (drwy gyfraniadau cynllunio) neu'n dibynnu ar Gynllun Rheoli Asedau Dŵr Cymru i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, pe na bai cyllid yn cael ei sicrhau, byddai oedi cyn cyflawni'r datblygiad neu byddai'n cael ei gyflwyno'n raddol nes bod y gwelliannau'n cael eu cyflawni, neu fod capasiti pellach ar gael i ddarparu ar gyfer y cynnig. Ar hyn o bryd ceir amwysedd llwyr ynghylch y dull i'w gymryd a gwaith pellach i sicrhau bod dyraniadau'r CDLI diwygiedig yn cael eu cyflawni. Mae BDW yn nodi bod gwaith trin dŵr gwastraff Llanelli wedi'i nodi yn Nhabl 3 fel un sydd â phroblemau capasiti posibl; fodd bynnag, mae'n nodi mai ateb posibl fyddai ceisio dyrannu rhagor o ddatblygiadau yn y dalgylch i ganiatáu mwy o gyfraniadau cynllunio a buddsoddi'n gynharach yn y gwaith trin dŵr gwastraff. Byddai hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried pwysigrwydd Llanelli a'r ffaith bod dyraniadau arfaethedig y CDLI diwygiedig yn cael eu cyfyngu gan yr Ardal Sensitif i Ffosffad, yn benodol: - SeC16/h1 – Chwarter Gogledd Llandeilo (27 uned) - SeC14/h2 – Tir gerllaw Maescader (24 uned) Byddai dyrannu'r safle y gellir ei gyflawni'n gyfan gwbl ar dir oddi ar Heol-y-Mynydd, y Bryn yn cynorthwyo i ddarparu cyllid pellach yn y gwaith trin dŵr gwastraff a darparu sicrwydd pellach wrth gyflawni'n gynnar o fewn y Taflwybr Tai (gan fod y safleoedd eraill hynny'n parhau i gael eu dal gan ffosffadau).	Wedi'i adeiladu ar sail y Cynllun Gweithredu Interim, mae'r Cynllun Gweithredu dilynol yn nodi cyfrifiadau technegol sy'n ategu'r cwantwm lliniaru sydd ei angen ac yn cynnwys manylion sy'n ymwneud ag astudiaethau dichonoldeb sydd wedi symud aeddfedrwydd yr atebion a nodwyd ymlaen yn sylweddol. Fel y trafodwyd yn Atodiad C Ail Adendwm ARC, gellir clymu mesurau lliniaru â chaniatadau mewn ymdrech i leihau unrhyw oblygiadau posibl ar ddarparu tai. Er bod hyn yn gallu cynnwys gwlyptiroedd adeiledig, nid dyma'r unig opsiwn lliniaru arfaethedig. Mae Canllawiau Lliniaru Cynhwysfawr wedi eu cyhoeddi i esbonio'r mathau mwyaf effeithiol o liniaru y gellid eu defnyddio yn Sir Gaerfyrddin. Er bod y materion hyn yn rhyng-gysylltiedig, mae'r ARC yn disgrifio effeithiau andwyol posibl llwytho P cynyddol a gwaredu dŵr gwastraff fel, i bob pwrpas, llwybrau effaith ar wahân. Roedd hyn yng ngoleuni'r canllawiau ffosffad, ac i atal dryswch gyda'r asesiad priodol wedi'i wneud eisoes yn yr ARC ar gyfer yr effeithiau a nodwyd trwy ddŵr gwastraff. Ni fwriadwyd i'r mesur eilaidd i atal llwytho ychwanegol (fel y'i cynhwysir yn Nhabl 5) fynd i'r afael â'r mater ffosffad yn uniongyrchol. Mae Pennod 5.3 o Atodiad C (Ail Adendwm ARC) yn nodi'r mesurau Categori 1 hynny sy'n caniatáu cydymffurfio â'r Rheoliadau Cynefinoedd ac yn osgoi effeithiau andwyol o'r datblygiadau sy'n deillio o ddyraniadau'r CDLI, yn ogystal â mesurau Categori 2 a fydd yn sicrhau gostyngiadau ffosfforws ehangach ar draws y dalgylch. Ers yr asesiad DWF blaenorol fel y'i crynhoir yn yr Adroddiad ARC, mae asesiad mwy diweddar wedi cael ei gynnal ers hynny mewn ymgynghoriad â Dŵr Cymru (fel y nodir yn eu hymateb isod – HRAREP26). Tra bo mesurau lliniaru yn cael eu trafod drwy'r gyfres o ddogfennau ARC, defnyddir y wybodaeth hon yn bennaf gan Dŵr Cymru i helpu i lywio rhaglennu AMPau y dyfodol.

Cyf	Ymgynghorai	Sylw Ymgynghorai (mewn italig)	Ymateb																								
		Casgliad At ei gilydd, mae BDW Homes yn codi nifer o bryderon ynghylch yr 2il Adendwm i'r ARC (2024), gan gynnwys: - Y materion a godwyd mewn perthynas â'r Dyraniadau Safle a Lliniaru Ffosffad, a'r ffaith nad yw'r dulliau arfaethedig yn mynd at wraidd y mater ffosffadau, yn hytrach yn gwrthio'r materion ymhellach ar hyd y broses a gallai hyn achosi oedi sylweddol wrth gyflawni safleoedd. - Ceir pryder ynghylch effeithiau'r diffyg hyblygrwydd yn y Trwyddedau ar gyfer Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff, ond mae BDW yn awgrymu y bydd dyrannu datblygiadau pellach, yn enwedig yn Llanelli, yn helpu i ariannu a gwneud gwaith cynharach. O ganlyniad, rhoddir cefnogaeth ar gyfer tir oddi ar Heol-y-Mynydd, y Bryn, sy'n un y gellir ei gyflawni ac sy'n cael ei arwain gan y datblygwr, mae ganddo ddatblygwr yn barod i fynd â'r safle yn ei flaen. Yn unol â hynny, gall y Bryn/Llanelli ddarparu ar gyfer gofynion twf y dyfodol, a dylid cynnwys y tir oddi ar Heol-y-Mynydd, y Bryn fel dyraniad.																									
HRAREP26	Dewi Griffiths	<u>Darn a gymerwyd o e-bost dyddiedig 3 Ebrill 2024 ac a gyfieithwyd wedyn fel:</u> [Adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd] <i>rhestru 6 x gwaith trin dŵr gwastraff lle gallai'r twf arfaethedig arwain at fynd y tu hwnt i'r trwyddedau Llif Tywydd Sych (DWF) – Parc y Splotts, Cross Hands, Llannant, Talacharn, Pencader a Phentywyn.</i> <i>Rydym wedi ailedrych ar y gwaith hwn i asesu effaith twf ar drwyddedau Llif Tywydd Sych gweithfeydd trin dŵr gwastraff, yn seiliedig ar ddata Llif Tywydd Sych 2023 a'r twf arfaethedig yn y CDLI newydd ... Rydym wedi ailedrych ar y gwaith hwn i asesu effaith twf ar drwyddedau Llif Tywydd Sych gweithfeydd trin dŵr gwastraff, yn seiliedig ar ddata Llif Tywydd Sych 2023 a'r twf arfaethedig yn y CDLI newydd. ...</i> <i>Gweler isod restr wedi'i diweddarau o weithfeydd trin dŵr gwastraff lle byddai twf y CDLI newydd yn fwy na'r capasiti sydd ar gael o fewn y Cydsyniad Llif Tywydd Sych, neu lle nad yw'r gwaith trin dŵr gwastraff yn cydymffurfio ar hyn o bryd o ran Llif Tywydd Sych:</i> <table><tr><th>Gwaith trin dŵr gwastraff</th><th>Sefyllfa Llif Tywydd Sych</th></tr><tr><td>Adpar</td><td>Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun</td></tr><tr><td>Cross Hands</td><td>Ddim yn cydymffurfio – cynllun cydymffurfio wedi'i gynllunio erbyn 31/03/2025</td></tr><tr><td>Cwmgwili</td><td>Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun (dim twf wedi'i gynnig yn y CDLI)</td></tr><tr><td>Talacharn</td><td>Ddim yn cydymffurfio – cynllun wedi'i gynllunio yn AMP8</td></tr><tr><td>Llanfynydd</td><td>Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun</td></tr><tr><td>Llannant</td><td>Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun</td></tr><tr><td>Pentywyn</td><td>Ddim yn cydymffurfio – cynllun wedi'i gynllunio yn AMP8</td></tr><tr><td>Pentre-cwrt</td><td>Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun</td></tr><tr><td>Parc y Splotts</td><td>Byddai twf y CDLI yn arwain at dorri'r Llif Tywydd Sych</td></tr><tr><td>Sanclêr</td><td>Byddai twf y CDLI yn arwain at dorri'r Llif Tywydd Sych</td></tr><tr><td>Hendy-gwyn ar Daf</td><td>Byddai twf y CDLI yn arwain at dorri'r Llif Tywydd Sych</td></tr></table> <i>Ar hyn o bryd, nid yw pob cynllun cydymffurfio wedi'i raglennu oherwydd bod data'n parhau i gael ei fonitro a'r angen i gwmpasu a dylunio cynllun. Ar gyfer y tri gwaith trin dŵr gwastraff lle byddai cyfanswm twf y CDLI yn fwy na'r hyblygrwydd trwydded Llif Tywydd Sych, byddwn yn rhaglennu cynlluniau i'r broses AMP yn unol â hynny.</i>	Gwaith trin dŵr gwastraff	Sefyllfa Llif Tywydd Sych	Adpar	Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun	Cross Hands	Ddim yn cydymffurfio – cynllun cydymffurfio wedi'i gynllunio erbyn 31/03/2025	Cwmgwili	Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun (dim twf wedi'i gynnig yn y CDLI)	Talacharn	Ddim yn cydymffurfio – cynllun wedi'i gynllunio yn AMP8	Llanfynydd	Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun	Llannant	Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun	Pentywyn	Ddim yn cydymffurfio – cynllun wedi'i gynllunio yn AMP8	Pentre-cwrt	Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun	Parc y Splotts	Byddai twf y CDLI yn arwain at dorri'r Llif Tywydd Sych	Sanclêr	Byddai twf y CDLI yn arwain at dorri'r Llif Tywydd Sych	Hendy-gwyn ar Daf	Byddai twf y CDLI yn arwain at dorri'r Llif Tywydd Sych	Cydnabuwyd y sylw. Mae'r mesurau lliniaru ar gyfer effaith gysylltiedig gormodeddau DWF a amlinellwyd eisoes wedi cael eu cynnig (gweler paragraff 3.0.2 a Thabl 5 o'r Ail Adendwm ARC). Er bod y data a ddefnyddir ar gyfer yr asesiad DWF diweddaraf hwn yn parhau i fod yn destun newid (fel y gwelir drwy gydol datblygiad y CDLI), byddai ymgynghori pellach (yn enwedig yn ystod y broses cyn ymgeisio a/neu broses y cais cynllunio llawn) yn asesu manylion unrhyw gynigion eraill ac i ba raddau y gallent effeithio ar gapasiti DWF. Yn unol â'r mesurau (polisiâu CDLI lliniaru megis SP14 a CCH4), ni fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi oni bai bod unrhyw effeithiau andwyol a nodwyd wedi'u lliniaru.
	Gwaith trin dŵr gwastraff	Sefyllfa Llif Tywydd Sych																									
	Adpar	Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun																									
	Cross Hands	Ddim yn cydymffurfio – cynllun cydymffurfio wedi'i gynllunio erbyn 31/03/2025																									
	Cwmgwili	Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun (dim twf wedi'i gynnig yn y CDLI)																									
	Talacharn	Ddim yn cydymffurfio – cynllun wedi'i gynllunio yn AMP8																									
	Llanfynydd	Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun																									
	Llannant	Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun																									
	Pentywyn	Ddim yn cydymffurfio – cynllun wedi'i gynllunio yn AMP8																									
	Pentre-cwrt	Ddim yn cydymffurfio - bydd angen cynllun																									
Parc y Splotts	Byddai twf y CDLI yn arwain at dorri'r Llif Tywydd Sych																										
Sanclêr	Byddai twf y CDLI yn arwain at dorri'r Llif Tywydd Sych																										
Hendy-gwyn ar Daf	Byddai twf y CDLI yn arwain at dorri'r Llif Tywydd Sych																										